Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO | | GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 25 MAI 2021 am 2:00 y. p. | | TUESDAY, 25 MAY, 2021 at 2:00 p.m. |
| CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDIO'N FYW | | VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

John Griffith, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Gwilym O. Jones, Richard Griffiths

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Jeff Evans, Peter Rogers *(Cadeirydd/Chair)*

**AELOD LLEYG / LAY MEMBER**

Dilwyn Evans *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)*

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 14)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –

- 20 Ebrill, 2021
- 18 Mai, 2021 (ethol Cadeirydd/Is-Gadeirydd)

3 **ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2020/21** (Tudalennau 15 - 42)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

4 **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2020/21** (Tudalennau 43 - 62)

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor.

5 **BLAEN RAGLEN WAITH ARFAETHEDIG 2021/22** (Tudalennau 63 - 68)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 20 Ebrill, 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd)<br>Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg)(Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, G.O. Jones (o eitem 6 ymlaen), Dylan Rees. |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (AS)<br>Prif Archwilydd (Gogledd Orllewin Cymru)<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Mrs Annwen Morgan (Prif Weithredwr), Mr Dylan Williams (Dirprwy Brif Weithredwr) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio dros Gyllid), Mr Alan Hughes (Arweinydd Archwilio Perfformiad - Archwilio Cymru). Yvonne Thomas (Rheolwr Archwilio Ariannol – Archwilio Cymru), Uwch Archwilydd – CSYM (NR) |

---

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2021 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi –

- Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg ei bod wedi bod mewn cysylltiad â'r Tîm Hyfforddi a Datblygu Adnoddau Dynol i ofyn am atgoffa'r aelodau hynny o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nad oeddent eto wedi cwblhau'r modiwl E-ddysgu ymwybyddiaeth seiberddiogelwch o'r angen i wneud hynny gan ei fod yn hyfforddiant gorfodol. Mewn ymateb i sylwadau gan Aelodau, cynigiodd ofyn i'r Tîm Hyfforddi a Datblygu Adnoddau Dynol ail anfon y nodyn atgoffa rhag ofn bod rhai Aelodau wedi methu'r nodyn atgoffa gwreiddiol. Er mwyn gwneud mynediad yn haws byddai hefyd yn gofyn i ganllawiau ar gyfer cael mynediad i'r Porth E-Ddysgu drwy liniadur gael eu cynnwys. Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

**CAM GWEITHREDU: Bod y Pennaeth Archwilio a Risg yn gofyn i'r Tîm Hyfforddi a Datblygu Adnoddau Dynol ail anfon y nodyn at aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ein hatgoffa o'r angen i gwblhau'r modiwl E-ddysgu Ymwybyddiaeth Seiberddiogelwch os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny, ac i roi arweiniad ar gael mynediad i'r Porth E-Ddysgu drwy liniadur.**

- Cyfeiriwyd at yr oedi wrth ardystio hawliadau Budd-dal Tai a godwyd yn y Crynodeb Archwilio a gyflwynwyd i gyfarfod blaenorol y Pwyllgor - yn benodol a wnaed cynnydd i



DRAFT

alluogi'r Adran Gwaith a Phensiynau i ryddhau'r cymorthdaliadau sy'n weddill o tua £5m, ac effaith hyn ar sefyllfa ariannol y Cyngor.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 fod y Swyddog o fewn y Gwasanaeth Cyllid sy'n arwain y gwaith o gwblhau'r hawliadau cymhorthdal hefyd yn ymwneud â chyhoeddi biliau'r Dreth Gyngor sydd wedi cymryd rhan helaeth o fis Mawrth a dechrau mis Ebrill; roedd gweithiwr cymorth asiantaeth a oedd yn helpu gyda'r gwaith profi ar gyfer yr hawliadau cymhorthdal hefyd wedi gadael i wneud swydd arall a olygai fod yn rhaid llenwi'r bwlch hwnnw gan arwain at rywfaint o oedi. Serch hynny, y nod o hyd yw cwblhau cais am gymhorthdal Budd-dal Tai 2018/19 erbyn diwedd mis Mai, 2021 ac mae llythyr barn archwilio allanol wedi'i ddrafftio; mae'r gwaith profi ar hawliadau cymhorthdal 2019/20 wedi'i wneud a bydd yr archwiliad yn cael ei gwblhau unwaith y bydd hawliad 2018/19 wedi'i ardystio. Fodd bynnag, bydd cwblhau cais am gymhorthdal 2018/19 ynddo'i hun yn rhyddhau cyfran sylweddol o gyfanswm y cymorthdaliadau sy'n weddill o £5m a ddelir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Byddai cwblhau hawliad 2019/20 erbyn diwedd mis Mehefin wedyn yn dod â'r broses yn ôl ar y trywydd iawn. Yna, bydd angen i'r cais drafft am gymhorthdal cyn archwilio ar gyfer 2020/21 gael ei gyflwyno erbyn y dyddiad cau ar 30 Ebrill gyda dyddiad cwblhau'r archwiliad, o 30 Tachwedd 2021; bydd cyrraedd y targedau hyn yn golygu bod y broses hawliadau Cymhorthdal Tai wedi'i diweddaru.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, mewn awdurdodau llai fel Ynys Môn, nad yw bob amser yn bosibl neilltuo nifer o staff ar gyfer gwaith cymhorthdal budd-dal Tai;  a bod gan y swyddog sy'n gyfrifol am hyn yn Ynys Môn ddyletswyddau eraill hefyd. Yn ogystal â hyn, mae'r hawliad Cymhorthdal Tai yn gymhleth ac mae angen gwybodaeth fanwl am sut y caiff yr hawliad ei lunio; felly nid yw'n waith y mae modd i aelod arall o staff ei wneud yn hawdd. Byddai gwallau wrth lunio'r hawliad yn arwain at ymholiadau archwilio a bran maes o law.

**Derbyniodd y Pwyllgor y diweddariad a ddarparwyd, a'i nodi.**

**3. DIWEDDARIAD AR Y STRATEGAETH A'R BLAENORIAETHAU ARCHWILIO MEWNOL AR GYFER 2020-21**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn diweddaru gweithgarwch y Pwyllgor Archwilio Mewnol ar 6 Ebrill 2021 i'w ystyried. Darparodd yr adroddiad grynodeb o'r archwiliadau a gwblhawyd ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor ym mis Chwefror, 2021. Hefyd rhoddwyd gwybodaeth am y llwyth gwaith presennol a'r blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i ganolig wrth symud ymlaen yng nghyd-destun cynnal dull ystwyth er mwyn diwallu anghenion y Cyngor mewn amgylchedd risg a rheoli sy'n newid yn barhaus.

Diweddarodd y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg y Pwyllgor mewn perthynas â'r canlynol –

- Y gwaith sicrwydd a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf gan gyfeirio at y tabl ym mharagraff 4 o'r adroddiad a oedd yn cynnwys un archwiliad y cyhoeddwyd adroddiad terfynol ar ei gyfer. Mae hyn yn ymwneud ag Archwiliad Thematig o Ysgolion Cynradd - Casglu Incwm - Ail Archwiliad Dilyn-i-Fyny a arweiniodd at farn sicrwydd rhesymol heb nodi unrhyw risgiau/materion.
- Gwaith ar y gweill fel y dangosir gan y tabl ym mharagraff 5 o'r adroddiad sy'n cynnwys tri archwiliad sydd ar y gweill mewn meysydd sy'n ymwneud â TG (ar y cyd â Chyngor Dinas Salford); nodi anfonebau dyblyg ac adennill taliadau dyblyg a rheoli argyfwng (sicrwydd llinell flaen). Mae'r archwiliadau hyn yn deillio o gais Swyddog a/neu am eu bod yn gysylltiedig â Covid-19 ac yn cael eu hystyried yn risg uchel ac

yn cael blaenoriaeth i'w cwblhau fel eu bod yn cefnogi'r Farn Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2020/21. Disgwylir i ganfyddiadau'r archwiliad gael eu hadrodd i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai (mae'r cyfarfod ym mis Mehefin wedi'i glustnodi ar gyfer ystyried Datganiad Cyfrifon drafft 2020/21).

- Gwaith a ddygwyd ymlaen i 2021/22 sy'n cynnwys y pedwar archwiliad a nodir o dan baragraff 6 o'r adroddiad - Gosod Tai; Tai - Digartrefedd; Adennill Dyledion i'r Cyngor a Thaliadau Gofal Arbennig i'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol.
- Y camau sy'n weddill ar 6 Ebrill fel y'u dangosir yn y dangosfwrdd 4action yn Atodiad 1 yr adroddiad. Ehangir arnynt mewn adroddiad ar wahân o dan eitem 4 ar yr agenda.
- Mae gwaith ymchwilio yn darparu cymorth yn benodol gyda thri ymchwiliad ar gais Adnoddau Dynol. Mae dau ohonynt bellach wedi'u cwblhau ac un sy'n parhau.

Wrth ystyried y wybodaeth cododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol –

- Y rhesymeg dros ymgysylltu â Chyngor Dinas Salford i gynorthwyo gyda'r archwiliad TG pan fyddai disgwyl i awdurdod lleol arall yng Nghymru fod yn fwy cyfarwydd â systemau, prosesau a threfniadau Archwilio Mewnol y Cyngor.

  Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod yr archwiliad TG yn faes technegol iawn ac nad oes llawer o archwilwyr TG medrus ar gael. Mae Cyngor Dinas Salford wedi sefydlu ei hun dros nifer o flynyddoedd fel arbenigwr yn y maes hwn ac mae ganddo Archwilwyr Mewnol ymroddedig sydd wedi'u hyfforddi ym maes TG. Mae'n cynnig gwasanaeth ar gyfer pob cyngor yng Ngogledd Orllewin Lloegr ac mae Ynys Môn wedi defnyddio ei arbenigedd yn flaenorol, fel y mae cynghorau eraill yng Ngogledd Cymru. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cyrraedd eithaf ei allu o ran TG ac mae Ynys Môn yn awdurdod rhy fach i gael ei weithwyr archwilio proffesiynol ei hun, sy'n wir am y rhan fwyaf o dimau Archwilio Mewnol awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r archwiliad yn cael ei gynnal ar sail gydweithredol sy'n golygu, yn ogystal â helpu Cyngor Dinas Salford i gyflawni'r archwiliad, y bydd y tîm Archwilio Mewnol yn dysgu o'r ymgysylltu.

- A yw'r swyddogaeth Archwilio Mewnol wedi'i staffio'n ddigonol i allu ymdopi â'i llwyth gwaith presennol, yn enwedig yng ngoleuni'r risgiau ychwanegol y mae'r pandemig wedi'u creu sy'n gofyn am oruchwyliaeth archwilio mewnol.

  Derbyniodd y Pennaeth Archwilio a Risg ei bod wedi bod yn flwyddyn heriol ac mae'r Gwasanaeth wedi cefnogi'r Cyngor yn ei ymateb i argyfwng Covid-19 gydag un aelod o'r tîm yn cael ei adleoli i'r prosiect Profi ac Olrhain ac un arall i'r prosiect Grantiau Cymorth Busnes a ddaeth ag elfen o sicrwydd i'r broses honno. Mae un aelod arall o'r tîm yn parhau i fod ar secondiad i'r Gwasanaeth Cyfrifeg tan ddiwedd mis Awst, 2021. Er bod y ffaith bod un aelod o'r tîm yn gweithio mewn adran arall yn cael effaith, gall hefyd dalu ar ei ganfed drwy'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad ychwanegol y gall yr aelod o'r tîm eu defnyddio wedyn ar ôl dychwelyd at y tîm. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi addasu ei waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn helpu'r Cyngor i ymateb i argyfwng Covid 19 a pharhau i ddarparu gwasanaethau rheng flaen yn ystod y cyfnod hwnnw. Bydd Archwilio Mewnol yn parhau i fod yn hyblyg yn y flwyddyn i ddod a bydd yn blaenoriaethu ei waith yn unol ag anghenion y Cyngor.

**Penderfynwyd nodi darpariaeth sicrwydd a blaenoriaethau Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**



DRAFFT

## 4. MATERION A RISGIAU ARCHWILIO MEWNOL SYDD ANGEN SYLW

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf am statws a manylion y risgiau sy'n weddill y mae'r Archwiliad Mewnol wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried.

Adroddodd y Prif Archwilydd ar y prif bwyntiau fel a ganlyn –

- Mai dyma'r tro cyntaf i adroddiad manwl sy'n amlinellu perfformiad cyffredinol wrth fynd i'r afael â chamau archwilio gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ers gweithredu'r system olrhain 4action newydd sydd wedi'i huwchraddio. Mae'r system newydd wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth wella prosesau dilynol ac olrhain gweithredoedd Archwilio Mewnol.
- Mae'r dangosfwrdd 4action sy'n rhoi cipolwg amser gwirioneddol ar y perfformiad cyfredol wrth fynd i'r afael â chamau gweithredu sy'n weddill wedi'i ddatblygu a'i fireinio. Caiff camau hwyr eu monitro'n barhaus sy'n golygu bod diweddariadau ar unwaith gan reolwyr ar y cynnydd a wneir i fynd i'r afael â nhw.
- Bod dangosfwrdd gwasanaeth pwrpasol i gynorthwyo Penaethiaid Gwasanaeth a'u timau rheoli i fonitro a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am eu gweithredoedd hefyd wedi'i ddatblygu. Ar hyn o bryd rydym yn treialu'r dangosfwrdd gyda'r gwasanaeth Adnoddau ac os bydd yn llwyddiannus byddwn yn bwrw ymlaen i'w ddefnyddio'n helaethach ar draws y Cyngor yn ystod 2021-22. Yn anffodus, mae argyfwng Covid-19 wedi cyfyngu ar ein gallu i gyflwyno'r system 4action newydd i wasanaethau a darparu hyfforddiant ac ati fel bod rheolwyr yn gallu defnyddio ei swyddogaethau yn llawn. Wrth i'r pandemig gilio, byddwn yn ailddechrau'r gwaith hwn.
- Fel ar 31 Mawrth, 2021 roedd 60 o gamau gweithredu sy'n weddill yn cael eu holrhain yn 4action ac mae 20 ohonynt yn cael eu graddio'n rhai "pwysig" (ambr) a 40 yn rhai "cymedrol" (melyn) o ran eu blaenoriaeth risg (fel y dangosir yn Graff 1). Ni chodwyd unrhyw faterion coch yn ystod y flwyddyn ac nid oes unrhyw faterion/risgiau coch sy'n weddill ar hyn o bryd. Mae'r camau gweithredu sy'n weddill rhwng y cyfnod 2014/15 a 2020/21 gyda'r mwyafrif yn ymwneud â'r ddwy flynedd ariannol ddiwethaf. Mae'r hynaf sy'n dyddio'n ôl i 2014/15, yn ymwneud â'r angen am wiriadau annibynnol rheolaidd o adroddiadau cyflogres ac mae'n mynd rhagddo'n dda o ran ei gwblhau. Mae'r camau sy'n weddill o 2016/17 yn ymwneud â'r angen i wasanaethau roi sicrwydd bod eu gweithgarwch caffael yn effeithiol yn y broses flynyddol o herio gwasanaethau. Disgwylir i'r cam gweithredu hwn fod wedi'i gwblhau ar gyfer y broses her gwasanaeth nesaf.
- Ar hyn o bryd mae dau gam gweithredu sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targed ac sydd felly'n hwyr fel y dangosir yn Graff 2. Mae'r cam gweithredu 'hwyr' yn ymwneud â hyfforddiant i staff TG o ran eu cyfrifoldebau pe bai digwyddiad TG yn golygu bod angen cymryd camau adfer. Pennir sut y byddwn yn bwrw ymlaen â'r cam gweithredu hwn unwaith y bydd y camau dilyn-i-fyny ar gyfer archwiliad ffurfiol o Wytnwch TG wedi'i gynnal yn Ebrill 2021. Mae'r camau cysylltiedig "cymedrol" hwyr yn ymwneud â'r angen am wiriadau rheolaidd, annibynnol o adroddiadau cyflogres ac fel y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol, mae'r gwaith bellach bron wedi'i gwblhau, ond bydd angen iddo ymsefydlu o fewn y gwasanaeth fel tasg arferol.
- O ganlyniad i waith Archwilio Mewnol yn 2020/21, codwyd cyfanswm o 21 o faterion/risgiau a oedd yn gofyn am sylw gan reolwyr (Graff 3). O'r rhain, dosbarthwyd 7 yn rhai "pwysig" a 14 yn rhai "cymedrol" (Graff 4). O'r camau gweithredu a godwyd gennym ac a oedd i fod i gael eu cwblhau yn 2020/21, roedd y rheolwyr wedi mynd i'r afael â chwech o rai blaenoriaeth risg gymedrol cyn 31 Mawrth 2021, sy'n cynrychioli perfformiad o 100% yn y maes hwn. Roedd pob un o'r chwech yn ymwneud ag archwiliad hunanasesu Covid-19 a gynhaliwyd gennym yng nghyfnod cynnar y pandemig ym mis Ebrill 2020.
- Mae Graffiau 5 a 6 yn dangos statws cyfredol pob un o'r camau gweithredu h.y. a ydyn nhw 'yn cael sylw', 'heb gychwyn' neu 'wedi cau' a'u dilysu gan Archwilio Mewnol. Mae



DRAFT

Graff 5 yn dangos statws yr holl gamau gweithredu, waeth erbyn pa bryd y cytunodd y rheolwyr i fynd i'r afael â nhw - rhoddwyd sylw i 40% ohonynt ac mae 38% wedi’u dilysu gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mae'r 2% sy'n weddill yn ymwneud â chamau gweithredu o archwiliad Gwytnwch TG, y byddwn yn ei ddilyn i fyny'n ffurfiol ym mis Ebrill 2021. Mae a wnelo hanner y camau gweithredu sydd heb ddechrau â dau archwiliad a gwblhawyd tua diwedd y flwyddyn sy’n gysylltiedig â Thaliadau - Cynnal Cyflenwyr a'r Panel Rhiant Corfforaethol na chyrhaeddwyd y dyddiad cwblhau penodol ar eu cyfer eto.

- Mae Graff 6 yn dangos statws yr holl gamau gweithredu sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targed. O'r rhain, mae'r rheolwyr wedi rhoi sylw i fwy na 90% gyda gwaith ar y gweill ar gyfer y gweddill. Weithiau caiff dyddiadau targed eu hymestyn ond dim ond os yw gwasanaethau'n gallu dangos rheswm dilys dros yr estyniad. O ganlyniad i argyfwng Covid 19 mae nifer o derfynau amser wedi'u hymestyn ar gyfer gwasanaethau y mae eu blaenoriaeth dros y 12 mis diwethaf wedi canolbwyntio ar ymateb i'r pandemig.

Wrth drafod yr adroddiad cododd y Pwyllgor y materion canlynol –

- Er eu bod yn cydnabod bod gwaith yn mynd rhagddo ar gamau gweithredu sy'n weddill nad ydynt wedi'u cwblhau'n llawn eto, roedd y Pwyllgor yn siomedig o glywed bod un o’r camau hynny'n dyddio'n ôl i 2014/15 ac un arall i 2016/17; gofynnodd y Pwyllgor am eglurder ynghylch esboniad y rheolwyr am beidio â mynd i'r afael yn llawn â'r materion hyn ar y sail po hiraf y bydd y materion hyn heb eu datrys, y mwyaf yw'r risg y byddant yn datblygu’n rhywbeth mwy.

  Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y camau sy'n weddill o 2014/15 yn ymwneud â'r Gyflogres sydd wedi bod yn destun ailstrwythuro er amser hir. Er bod y camau sy'n weddill yn ymwneud â rheolaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynnal gwiriadau annibynnol rheolaidd o adroddiadau cyflogres bellach ar waith, mae angen i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol fod yn fodlon bod y dasg hon wedi ymsefydlu mewn gwaith cyflogres o ddydd i ddydd dros gyfnod o amser. Mae'r camau sy'n weddill o 2016/17 yn ymwneud â chaffael ac mae'n deillio o archwiliad caffael a gynhaliwyd rai blynyddoedd yn ôl a oedd yn awgrymu nad oes gan y Cyngor unrhyw ddull ar gyfer mesur effeithiolrwydd ei weithgarwch caffael. O ganlyniad i edrych ar sut y gwnaeth cynghorau eraill ymgymryd â'r dasg hon a’r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi dweud bod angen llunio adroddiad ond yna’n dweud nad oedd angen gwneud hynny, mae wedi cymryd amser i benderfynu ar y ffordd orau o roi sicrwydd i'r Cyngor ynghylch effeithiolrwydd ei weithgarwch caffael. Cytunwyd maes o law â'r Rheolwr Caffael a'r Swyddog Adran 151 mai'r dull ar gyfer gwneud hynny fyddai drwy'r broses herio gwasanaethau lle byddai'n rhaid i wasanaethau yn ystod y broses honno roi sicrwydd bod eu gweithgarwch caffael yn effeithiol. Collwyd y cyfle i brofi'r dull ym mhroses herio gwasanaethau'r llynedd a gan mai unwaith y flwyddyn y cynhelir y broses, bu'n rhaid ei gohirio tan y broses her gwasanaeth nesaf yn yr hydref.

- O safbwynt achosion lle mae adolygiad archwilio yn codi materion ar draws yr ystod o lefelau blaenoriaeth risg mawr, cymedrol a bach, dylid rhoi mwy o amlygrwydd i'r prif faterion ac, os oes angen, eu dwyn ymlaen i weithredu arnynt ar y sail os gadewir nhw am gyfnod o amser mae perygl y bydd yr ysgogiad a'r cymhelliant i fynd i'r afael â'r materion hynny'n lleihau. Os felly, mae angen edrych o’r newydd a/neu ailasesu camau gweithredu yn hytrach na dim ond ailedrych arnynt.

  Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cymryd pob risg/mater a godwyd a'r camau rheoli a gynigir i fynd i'r afael â nhw ar sail yr hyn a nodir a chytunir ar ddyddiad gweithredu gyda'r rheolwyr – mewn rhai achosion mae'r rheolwyr yn or-optimistaidd wrth amcangyfrif yr amser a gymerir i

DRAFT

fynd i'r afael yn llawn â mater a godwyd ac fe'i cynghorir ar amserlen gyraeddadwy. Gall y broses ddemocrataidd, yn enwedig os oes newid mewn polisi ac ymgynghori'n digwydd, gymryd amser ac mewn achosion lle caiff systemau eu hailgynllunio neu wasanaethau eu hailstrwythuro, fel yn y Gyflogres, gall y broses gymryd mwy o amser. Er bod Archwilio Mewnol yn gwahaniaethu rhwng risgiau/materion mawr a chymedrol, rhoddir yr un amlygrwydd i'r ddau pan gânt eu dilyn i fyny gan y rheolwyr. Er bod Archwilio Mewnol yn ceisio mynd ar drywydd pob cam gweithredu sy'n weddill i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau, ni fyddai'n caniatáu i gamau gweithredu mewn perthynas â materion/risgiau a ystyrir yn flaenoriaeth risg fawr fod yn destun oedi hirfaith. Fel y nodir yn yr adroddiad, mae'r "hen" gamau gweithredu sy'n dyddio'n ôl i 2014/15 a 2016/17 yn cael eu graddio'n rhai "cymedrol" o ran blaenoriaeth risg.

Ychwanegodd y Pennaeth Archwilio a Risg, pan gyflwynwyd y system olrhain 4action newydd, fod tua 380 o argymhellion hanesyddol wedi'u hasesu'n unigol a barnwyd bod 60 yn ddigon pwysig i'w dwyn ymlaen ar gyfer monitro a dilyn i fyny parhaus.

Cadarnhaodd y Prif Archwilydd nad oes unrhyw risgiau/materion o bwys mawr sy'n fwy na blwyddyn oed.

Wrth ystyried pa mor aml y dylid cyflwyno adroddiad manwl ar faterion sy'n weddill a risg a godir gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor, arweiniwyd yr Aelodau gan gyngor y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd o'r farn y byddai adroddiad bob chwe mis yn bodloni'r gofynion o ran cyfrifoldebau llywodraethu'r Pwyllgor ac y byddai modd ei gyflawni hefyd o fewn llwyth gwaith presennol y tîm Archwilio Mewnol.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r Materion/Risgiau Archwilio Mewnol sydd angen sylw.**

- **Bod adroddiad manwl ar y Materion/Risgiau Archwilio Mewnol sydd angen sylw yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ddwywaith y flwyddyn.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

## 5. STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL DDRAFFT 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys y Strategaeth Archwilio Mewnol ddrafft ar gyfer 2021/22 i'r Pwyllgor ei ystyried.

Tynnodd y Pennaeth Archwilio a Risg sylw at elfennau allweddol canlynol y Strategaeth Archwilio –

- Y cyd-destun presennol lle mae amgylchiadau digynsail pandemig y coronafeirws byd-eang wedi llunio'r rhagolygon ar gyfer 2021/22 gan arwain at ailffocysu blaenoriaethau.
- Mabwysiadu dull ystwyth sy'n seiliedig ar risg o ddarparu archwiliadau sy'n golygu y bydd gweithgarwch archwilio mewnol yn cyd-fynd â'r cofrestrau risg corfforaethol. Mewn gweithgarwch archwilio ystwyth mae gweithgarwch yn seiliedig ar risgiau ac anghenion y sefydliad; canolbwyntir ar gydweithredu a chyfathrebu rhwng y tîm archwilio a rhanddeiliaid, mae'r flaenoriaeth ar gyflymder ac effeithlonrwydd sy'n arwain at broses symlach ac archwilio cyflymach.
- Defnyddio'r model tair llinell (Llinell gyntaf - swyddogaethau gweithredol; ail linell - swyddogaethau sy'n cefnogi, monitro a hwyluso e.e. Cyfreithiol, Sicrhau Ansawdd,

Diogelwch Gwybodaeth; trydedd linell - swyddogaethau sy'n rhoi sicrwydd annibynnol e.e. rheoleiddwyr mewnol ac allanol) fel fframwaith i ddod â ffynonellau sicrwydd at ei gilydd. Bydd yr Archwiliad Mewnol yn gweithio gyda'r llinell gyntaf a'r ail linell i ddarparu’r sicrwydd hwn a bydd Tîm Busnes a Pherfformiad Corfforaethol y Cyngor yn cefnogi Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor.

- Mae canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i'r Cyngor yn golygu mai'r rhan fwyaf o weithgarwch Archwilio Mewnol fydd adolygiad o'r risgiau gweddilliol coch ac ambr ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol gan gynnwys y saith maes risg a restrir yn yr adroddiad lle mae'r Cyngor wedi asesu'r risg gynhenid a gweddilliol fel risgiau Coch.
- Adolygu'r gwaith o reoli cofrestr risg Covid-19 er mwyn sicrhau bod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn parhau i reoli’r risgiau sy'n gysylltiedig â'r pandemig yn effeithiol.
- Rheoli'r risg o dwyll sydd wedi'i waethygu gan y pandemig presennol. Yn ystod 2021/22 bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn darparu hyfforddiant a phecyn e-Ddysgu i godi ymwybyddiaeth a darganfod twyll yn y sefydliad; ymgymryd â gweithgareddau i fynd i'r afael â thwyll, atal llwgrwobrwyo a llygredd, atal gwyngalchu arian ac atal ariannu terfysgaeth. Byddwn yn diweddaru'r Cynllun Ymateb i Dwyll yn unol â hynny..
- Cynnal adolygiadau o feysydd mewn ymateb i asesiad Penaethiaid Gwasanaeth o faterion risg a rheoli cyfredol fel yr amlinellir yn yr adroddiad.
- Ailddechrau gwaith a nodwyd ac a gynlluniwyd cyn y pandemig pan gafodd adnoddau mewnol eu hadleoli a chanolbwyntio ar gefnogi'r ymateb brys.
- Parhau i weithredu'r broses ddilynol a sefydlwyd i sicrhau bod y rheolwyr wedi mynd i'r afael yn effeithiol â'r risgiau a godwyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol.
- Gweithredu cyfres symlach o fesurau perfformiad i bennu effeithiolrwydd gwaith yr Archwiliad Mewnol.
- Ymrwymo i hyfforddi a datblygu staff y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn barhaus. Mae'r tîm yn parhau i gynnwys llawer iawn o brofiad archwilio mewnol ac allanol ynghyd â chymysgedd ardderchog o gymwysterau proffesiynol. Mae trosiant staff yn parhau i fod yn broblem er gwaethaf ymarfer recriwtio diweddar. Fodd bynnag, mae'r profiad a gafwyd y llynedd wedi rhoi cyfle gwerthfawr i ddysgu ac, ynghyd â thîm newydd ac ymroddedig a meddalwedd olrhain gweithredu newydd, mae wedi rhoi'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol mewn sefyllfa dda i gyflawni ei strategaeth.

Wrth drafod yr adroddiad a'r strategaeth, gwnaeth y Pwyllgor y pwyntiau canlynol –

- O ran y risg goch ddynodedig mewn perthynas â'r gostyngiad gwirioneddol yng nghyllid y Cyngor a'r effaith bosibl ar wasanaethau, blaenoriaethau a gwydnwch ariannol y Cyngor, cyfeiriwyd at yr her gyfreithiol i benderfyniad Cyngor Gwynedd i godi ei bremiwm treth gyngor ar ail gartrefi i 100%. Pe bai'r her yn llwyddiannus, roedd y Pwyllgor am wybod a oedd goblygiadau i'r Cyngor hwn o ran gorfod ad-dalu premiymau a dalwyd ac a oes angen ei nodi fel risg.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ei fod yn deall bod yr her gyfreithiol wedi'i gosod ar y sail bod y cynnydd yn y premiwm ail gartrefi a gymeradwywyd gan Gyngor Gwynedd yn annheg ac yn gwahaniaethu. Mae Deddf Tai Cymru 2014 yn caniatáu i awdurdodau lleol godi premiwm o hyd at 100% o gyfradd safonol y dreth gyngor ar gartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi yn eu hardaloedd sy'n golygu bod Cyngor Gwynedd felly wedi gweithredu o fewn ei hawliau cyfreithiol. Bydd llys yn debygol o edrych ar y broses o wneud y penderfyniad a'r broses ymgynghori a gynhaliwyd. Dywedodd Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y Pwyllgor Gwaith yn Ynys Môn wedi penderfynu y bydd y Cyngor yn ymgynghori dros fisoedd yr haf ar gynyddu'r premiwm ar gyfer ail gartrefi yn ei ardal ac wrth wneud hynny bydd yn ystyried sut y cynhaliwyd y broses ymgynghori gan Gyngor Gwynedd. Pe bai dyfarniad cyfreithiol ar degwch proses Cyngor Gwynedd yn cael ei wneud yn y cyfamser,

yna byddai Ynys Môn yn ystyried hynny cyn dechrau neu gwblhau ei phroses ymgynghori ei hun a diwygio lefel y premiwm.

- O ran y Gofrestr Risg Gorfforaethol, y rhesymeg dros ddynodi Gwywiad yr Onnen a Thlodi fel risgiau cynhenid coch.

  Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod Gwywiad yr Onnen yn cael ei ystyried yn fater o bwys o ystyried nifer y coed yr effeithir arnynt ac y bydd yn rhaid eu torri yn ystod y 15 mlynedd nesaf. Mae llawer ohonynt mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o bobl wrth ymyl adeiladau, priffyrdd ac eiddo preifat. Mae'r mater wedi'i godi fel risg uchel gan yswirwyr y Cyngor ac mae'r Cyngor wedi dynodi Swyddog penodol i ymchwilio i'r mater. Er bod Tlodi fel risg wedi'i dynodi'n wreiddiol fel Cyflwyno Diwygio Lles, penderfynwyd ehangu cwmpas y risg o ddiwygio lles fel achos i gynnwys effeithiau ehangach tlodi ar les unigolion a'r effaith ar wasanaethau'r Cyngor a'u gallu i gefnogi pobl mewn tlodi.

- P'un ai a roddwyd ystyriaeth i'r newidiadau i gyfrifoldebau'r Pwyllgor y mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn eu cyflwyno ac unrhyw effaith ddilynol ar weithgarwch Archwilio Mewnol wrth ddatblygu'r strategaeth Archwilio Mewnol.

  Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg, er na allai feddwl ar unwaith am unrhyw ffordd y byddai'r ddeddfwriaeth newydd yn effeithio ar weithgarwch Archwilio Mewnol pe byddai, ar ôl myfyrio, yn ystyried fel arall, byddai'n adrodd yn ôl ac yn cynghori yn unol â hynny.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2021/22 a chadarnhau bod y dull a'r blaenoriaethau a amlinellir ynddi yn bodloni anghenion sicrwydd y Cyngor**.

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

**6. ARCHWILIO ALLANOL: CYNLLUN ARCHWILIO DRAFFT 2021 CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Cyflwynwyd yr adroddiad Archwilio Allanol a oedd yn cynnwys Cynllun Archwilio arfaethedig ar gyfer blwyddyn archwilio 2020/21 i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd y Cynllun yn nodi'r gwaith y cynigir ei wneud mewn perthynas â'r archwiliad ariannol, y rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer y flwyddyn ynghyd â'r rhaglen o waith ardystio grantiau ac amserlen adrodd archwilio.

Rhoddodd Mr Alan Hughes, Arweinydd Archwilio Perfformiad Archwilio Cymru grynodeb o gyfrifoldebau'r Archwilydd Allanol o ran archwilio datganiadau ariannol, ac mewn perthynas ag asesu trefniadau'r Cyngor ar gyfer cael gwerth am arian o'r adnoddau y mae'n eu defnyddio. Hefyd i ba raddau y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant. Cyfeiriodd at y rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer 2021/22 a oedd yn cynnwys darnau o waith yn ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru 2015) (archwiliad o'r Ddeddf) y mae eu manylion i'w cadarnhau; Sicrwydd ac Asesu Risg ynghylch trefniadau i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gwaith thematig mewn perthynas â galluoedd trawsnewid ac addasu cynghorau i adeiladu ar gyfer dyfodol cynaliadwy. Cadarnhaodd y bydd Archwilio Cymru yn parhau i fod yn hyblyg i gyflawni'r gwaith archwilio a nodir yn y cynllun ac mae wedi ymrwymo i sicrhau na fydd y gwaith hwn yn amharu ar y gweithgareddau y mae angen i'r Cyngor eu gwneud i ymateb i heriau parhaus a achosir gan bandemig Covid19.

Ymhelaethodd Yvonne Thomas, Rheolwr Archwilio Ariannol Archwilio Cymru ar y prif risgiau archwilio o ran y datganiad ariannol a nodwyd yn ystod cam cynllunio'r archwiliad a'r ymateb archwilio arfaethedig wrth ddelio â'r risgiau hynny, a chadarnhaodd fod y risgiau'n berthnasol i bob cyngor yng Nghymru.

Cododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol ynglŷn â’r cynllun archwilio arfaethedig –

- Y trefniadau a fydd yn disodli cyfrifoldebau gwelliannau parhaus yr Archwilydd Allanol na fyddant bellach yn gymwys o ganlyniad i newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

  Eglurodd Mr Alan Hughes fod Archwilio Cymru, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, wedi ymrwymo i ardystio Adroddiad Gwella a Chynllun y Cyngor a’i fod yn cyflwyno tystysgrifau i'r perwyl hwnnw. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn gosod dyletswydd ar gynghorau i adolygu ac adrodd ar eu perfformiad drwy hunanasesiad y bydd Archwilio Cymru yn ei archwilio er mwyn cael sicrwydd ynghylch y gwaith a wneir gan gynghorau yng Nghymru. Bydd yn elfen allweddol o'r fframwaith sicrwydd a fydd yn ei dro yn bwydo i mewn i fethodoleg sicrwydd a risg yr Archwiliad Allanol.

- Diben a swyddogaethau Cydbwyllgorau Corfforaethol y cyfeirir atynt fel rhan o'r prif risgiau archwilio ariannol a nodir o dan faterion eraill.

  Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol sydd wedi'u cynllunio i alluogi swyddogaethau penodol - datblygu economaidd; trafnidiaeth, cynllunio strategol a gwella addysg - i'w darparu'n strategol ar lefel ranbarthol gan wneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau. Mae Cydbwyllgor Corfforaethol Rhanbarthol Gogledd Cymru sy'n cwmpasu pob un o chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru yn rhan o'r trefniadau. Mae'r Cydbwyllgorau Corfforaethol yn endidau corfforaethol yn eu hawl eu hunain a byddant yn gallu cyflogi staff, dal asedau a gosod cyllidebau.

**Penderfynwyd derbyn y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2021, a nodi ei gynnwys.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

**7. NEWIDIADAU CYFANSODDIADOL SY'N EFFEITHIO AR Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn nodi'r newidiadau cyfansoddiadol sy'n effeithio ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oherwydd ymddiswyddiad aelod lleyg a gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i'w hystyried.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y Pwyllgor, yn dilyn ymddiswyddiad aelod lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, wedi gwneud cais i ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn lleihau nifer yr aelodau lleyg ar y Pwyllgor o ddau i un aelod lleyg hyd nes y daw darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i rym. Cymeradwywyd y gwelliant gan y Cyngor Llawn ar 9 Mawrth, 2021.

Mae'r newidiadau penodol sy'n effeithio ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o ganlyniad i'r Ddeddf yn ymwneud â'i enw (daeth y newid enw eisoes i rym), aelodaeth y pwyllgor, y cyfansoddiad a’r trafodion, penodi cadeirydd a dirprwy gadeirydd yn ogystal â'r gofyniad bod y Pwyllgor yn adolygu ac yn asesu gallu'r Cyngor i ymdrin â chwynion yn effeithiol. Er bod y Pwyllgor eisoes wedi bod yn derbyn adroddiad blynyddol ar gwynion, pryderon a chwythu'r chwiban fel rhan o'r gwaith o oruchwylio trefniadau llywodraethu yn y Cyngor ac y bydd yn gyfarwydd â'r maes, gwneir trefniadau gydag Awdurdod Safonau Cwynion Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i hyfforddiant cwynion gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor cyn cyflwyno'r adroddiad cwynion blynyddol ym mis Medi.

DRAFT

Cyfeiriodd y Pennaeth Archwilio a Risg hefyd at newidiadau sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth newydd mewn perthynas â Pherfformiad y Cyngor ac asesu Perfformiad a fydd yn golygu y bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiad hunanasesu drafft i'w adolygu, y bydd yn ofynnol i'r Cyngor ei lunio yn ogystal ag adroddiad ar asesiad perfformiad panel (ac ymateb y Cyngor) y bydd yn rhaid i'r Cyngor ei drefnu o leiaf unwaith yn ystod pob cylch etholiadol.

**Penderfynwyd nodi'r newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor yn dilyn ei gais, ynghyd â'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

**8. ADRODDIAD CAFFAEL LLESIANT YNG NGHYMRU**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Cynllunio Busnes, Rhaglenni a Pherfformiad a oedd yn cynnwys yr argymhellion a nodwyd yn adroddiad Caffael Llesiant yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ym mis Chwefror, 2021 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Mae adroddiad Caffael Llesiant yng Nghymru yn amlinellu i ba raddau y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn llywio penderfyniadau comisiynu a chaffael ar draws pob un o'r 44 corff cyhoeddus yng Nghymru.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 fod Cyngor Ynys Môn ymhlith sampl o awdurdodau lleol a gymerodd ran yn y gwaith maes ar gyfer yr adroddiad sy'n archwilio sut mae caffael yn cael ei weithredu yn y Cyngor a sut mae gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei ymgorffori mewn gwaith caffael o ddydd i ddydd. Yn Atodiad 1 ceir ymateb drafft y Cyngor i argymhellion yr adroddiad. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gofyn am weithredu gan Lywodraeth Cymru cyn y gellir eu gweithredu wedyn ar lefel y Cyngor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth(Adnoddau) a Swyddog Adran 151 fod y Cyngor wedi bod yn adolygu ei drefniadau rheoli contractau gan gynnwys y posibilrwydd o gyflwyno system ffurfiol i reoli'r swyddogaeth hon yn well a'i fod yn ymchwilio i weld pa systemau o'r fath oedd ar gael, eu nodweddion, eu manteision a'u goblygiadau o ran costau a sut y gellir eu hintegreiddio â systemau ariannol presennol y Cyngor. Mae Tîm Caffael y Cyngor hefyd yn cynnal archwiliad o sampl o gontractau i werthuso safon ac ansawdd contractau cyfredol ac i weld a yw'r elfennau rheoli contractau a rheoli perfformiad yn ddigon cadarn a sut y cânt eu monitro a'u gorfodi wedyn. Bydd canfyddiadau'r ddau ddarn hyn o waith yn llywio unrhyw benderfyniadau o ran rheoli contractau yn y dyfodol. Mae Strategaeth Gaffael y Cyngor hefyd yn cael ei hadolygu ac mae'n cael ei datblygu yn barod i'r Cyngor newydd ym mis Mai, 2022 i gyd-fynd â Chynllun Corfforaethol y Cyngor newydd.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi canfyddiadau'r adroddiad Caffael Llesiant yng Nghymru – Adolygiad o'r modd y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn llywio caffael yng Nghymru**
- **Cymeradwyo ymateb y Cyngor i'r argymhellion perthnasol a gyhoeddwyd.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

**9. BLAEN RAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Gorffennaf, 2021 i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin 2021 wedi'i glustnodi i ystyried Datganiad Cyfrifon Drafft 2020/21 a'r Datganiad Llywodraethu drafft a'i

bod yn ymgynghori ar gynnwys y Rhaglen Waith yng ngoleuni'r newidiadau yn sgil Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**Penderfynwyd derbyn y Blaen Raglen Waith heb unrhyw newidiadau.**

**Y Cynghorydd Peter Rogers**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 18 Mai, 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Jeff Evans, John Griffith, Richard Griffiths, G O Jones, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret Murley Roberts, Peter S Rogers.<br><br>Aelod Lleyg : Dilwyn Evans |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Y Cynghorydd Glyn Haynes – Cadeirydd y Cyngor Sir |

---

**1 DATGANIAD O DIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Peter S Rogers yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**3 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd Mr Dilwyn Evans yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**Y CYNGHORYDD GLYN HAYNES**
**FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 25 Mai 2021 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2020-21 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus angen i'r prif swyddog gweithredol archwilio gynhyrchu Adroddiad Blynyddol Archwili Mewnol. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. O dan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) mae'n ofynnol i'r 'prif swyddog archwilio' gyflwyno barn archwilio mewnol blynyddol ac adroddiad y gall y sefydliad ei ddefnyddio fel sail i'w ddatganiad llywodraethu. Yn ogystal, mae cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn yn nodi fod rhaid iddo ystyried adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol.

1.2. Mae'r adroddiad hwn yn darparu Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar gyfer 2020-21 i'r Pwyllgor, sy'n rhoi barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio a Risg ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, trefniadau rheoli risg a rheoli'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a yn ystyried ac yn cynnig sylwadau ar adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg a'r 'farn' gyffredinol.



# ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2020-21


**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA**

**Pennaeth Archwilio a Risg**

MarionPryor@YnysMon.gov.uk

01248 752611


**Mai 2021**

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# CYNNWYS

RHAGAIR - Y CYD-DESTUN PRESENNOL ____ 3
CYFLWYNIAD ____ 4
BARN ARCHWILIO MEWNOL ____ 5
Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol 2020-21 ____ 5
SAIL FY MARN ____ 6
Cwmpas ____ 6
Sicrwydd ____ 6
Gwaith Archwilio Mewnol ____ 6
Sicrwydd Llinell Gyntaf ____ 9
MATERION / RISGIAU SYDD ANGEN SYLW ____ 10
Perfformiad Cyfredol ____ 10
Gweithredoedd Hwyr ____ 11
MATERION SY'N BERTHNASOL I BARATOI'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL ____ 14
EIN PERFFORMIAD ____ 15
Ychwanegu Gwerth ____ 15
Mesurau Perfformiad ____ 16
Meincnodi ____ 16
HYFFORDDI A DATBLYGU ____ 17
CYDYMFFURFIO Â SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR CYHOEDDUS ____ 18
HERIAU A CHYFLEOEDD I'R DYFODOL ____ 19
ATODIAD A: Diffiniad o Raddau Sicrwydd 2020-21 ____ 20
ATODIAD B: Risgiau Gweddilliol Coch ac Ambr yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol ____ 21
ATODIAD C: Gwaith Archwilio Mewnol Arall yn 2020-21 ____ 25
ATODIAD D: Gwaith Ardystio Grantiau yn 2020-21 ____ 26
ATODIAD E: Mesurau Perfformiad - Cymharu Â'r Targed ____ 27

# RHAGAIR – Y CYD-DESTUN PRESENNOL

Mae COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar bob un o'r gwasanaethau cyhoeddus ac o safbwynt archwilwyr mewnol mae wedi codi cwestiwn ynghylch a fyddent yn gallu gwneud digon o waith archwilio mewnol i ddarparu sicrwydd yn ystod 2020-21.

Mae hyn yn ystyriaeth allweddol er mwyn cyflawni gofyniad Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) ble mae'n rhaid i'r Pennaeth Archwilio Mewnol gyflwyno barn flynyddol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheoli y Cyngor. Mae'r farn hon yn un o'r ffynonellau sicrwydd y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt ar gyfer ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol.

Roedd CIPFA[1] yn cydnabod bod cyrff llywodraeth leol yn ymlafnio â heriau sylweddol a'u bod yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd am y ffordd orau o ddefnyddio'r staff a'r adnoddau ariannol oedd ar gael i gwrdd â'r anghenion hanfodol. Yn y cyfamser, nid oedd unrhyw newid yn y disgwyliadau proffesiynol a rheoleiddio ar gyrff llywodraeth leol i sicrhau bod eu trefniadau archwilio mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS).

Felly, yn ystod mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd CIPFA ganllawiau sector benodol ar gyfer archwilwyr mewnol oedd yn gweithio mewn, neu'n gweithio ar ran llywodraeth leol yn y DU; roedd yn nodi ac yn trafod mewn manylder chwech o ofynion allweddol ar gyfer cyrff llywodraeth lleol y dylai penaethiaid archwilio mewnol, timau arweinyddiaeth a phwyllgorau archwilio eu dilyn er mwyn i'r sefydliad gwrdd â'u hanghenion sicrwydd.

Yn dilyn ymgynghori â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) er mwyn cymryd canllawiau CIPFA i ystyriaeth ac adolygu a chytuno ar flaenoriaethau'r tîm archwilio mewnol er mwyn rhoi sylw i'r risgiau newydd a'r newidiadau yn sgil effaith COVID-19, cyflwynodd y Pennaeth Risg ac Archwilio adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Chwefror 2021. Roedd yn nodi'r darpariaethau fyddai'n cael eu gwneud er mwyn cael sicrwydd digonol i gefnogi'r farn flynyddol, gan roi ystyriaeth i faterion capasiti.

---

[1] CIPFA yw'r corf Gosod Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS) ar gyfer llywodraeth leol ac mae'n gweithio RIASS eraill yn y DU i fandadu'r safonau PSIAS ar draws y sector cyhoeddus.

# CYFLWYNIAD

**Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) mae'n rhaid i'r 'prif swyddog archwilio', sef y Pennaeth Archwilio a Risg yn achos y Cyngor, gyflwyno barn archwilio blynyddol y gall y sefydliad ei defnyddio fel sail i'w Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol[2].**

Mae'n rhaid i'r farn flynyddol gynnwys:

- Barn ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu'r sefydliad
- Datgelu unrhyw amodau ar y farn honno, ynghyd â'r rheswm dros yr amod
- Cyflwyno crynodeb o'r gwaith archwilio y seiliwyd y farn arno, yn cynnwys dibyniaeth a roddir ar gyrff sicrwydd eraill
- Tynnu sylw at unrhyw faterion y mae'r prif swyddog archwilio'n barnu eu bod yn arbennig o berthnasol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Crynhoi perfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol yn erbyn ei fesurau perfformiad
- Cyflwyno sylwadau ar gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) a rhannu canlyniadau rhaglen sicrhau ansawdd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

[2] O dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mae'n rhaid adrodd ar adolygiad o drefniadau llywodraethu yn fewnol, i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn achos y Cyngor, ac yn allanol yn y cyfrifon a gyhoeddir. Adolygiad blynyddol o systemau rheoli mewnol yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) ac mae'n casglu sicrwydd o wahanol ffynonellau i'w ategu. Mae Archwilio Mewnol yn gyfrannwr allweddol ac mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn darparu adroddiad blynyddol ysgrifenedig ar gyfer y sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu i ategu'r DLIB.

# BARN ARCHWILIO MEWNOL

## Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol 2020-21

Am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, barn y Pennaeth Archwilio a Risg yng Nghyngor Sir Ynys Môn yw bod gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.

Er nad ydw i'n ystyried unrhyw feysydd o bryder corfforaethol, mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni, a'u bod yn cael eu monitro.

Nid oes unrhyw amodau ar y farn hon.

# SAIL FY MARN

## Cwmpas

Rydw i wedi dod i fy marn drwy ystyried y gwaith a'r gweithgareddau a gyflawnwyd gennym yn ystod y flwyddyn, a drafodir ymhellach isod. Nid yw'r farn yn awgrymu ein bod wedi adolygu'r holl risgiau a sicrwydd sy'n ymwneud â'r Cyngor, ond mae'n deillio'n sylweddol o bennu cynllun gwaith sy'n seiliedig ar risg y mae rheolwyr wedi cytuno arno ac y mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ei gymeradwyo. Dylai gynnig lefel rhesymol o sicrwydd, yn amodol ar y cyfyngiadau cynhenid isod a'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Chwefror 2021 ac a drafodwyd yn y Rhagair - Y Cyd-destun Presennol uchod.

### Cyfyngiadau

Dim ond y materion a ddaeth i'n sylw wrth i ni gyflawni ein gwaith â'n gweithgareddau o fewn y Cyngor a godir yn yr adroddiad hwn. Nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli neu'r holl welliannau y gellid eu gwneud. Ni ddylid ystyried chwaith bod yr adroddiad hwn, nac ein gwaith, yn cymryd lle cyfrifoldebau rheolwyr i roi arferion rheoli mewnol cadarn ar waith. Pwysleisiwn mai cyfrifoldeb rheolwyr yw sicrhau system gadarn o reolaethau mewnol a ni ddylid dibynnu ar ein gwaith i nodi'r holl gryfderau a gwendidau a all fodoli.

## Sicrwydd[3]

Yr allweddi i fedru cael sicrwydd digonol fel sail i'r farn oedd cymryd i ystyriaeth gwaith archwilio mewnol a ffynonellau sicrwydd eraill:

## Gwaith Archwilio Mewnol

- Archwiliadau yn ymwneud â'r gofrestr risg gorfforaethol (wedi eu llywio gan y strategaeth archwilio seiliedig ar risg)
- Adolygiad o'r Ymateb i'r Argyfwng Covid-19 (Hunanasesiad) a gwaith Dilyn i Fyny - cwblhawyd rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020
- Gwaith archwilio arall

[3] Gellir gweld diffiniadau o raddfeydd sicrwydd oedd ar waith yn 2020-21 yn Atodiad A

- Gwaith archwilio grantiau gorfodol

**Archwiliadau yn gysylltiedig â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol**

Yn ystod 2020-21, rhoddwyd gradd risg gweddillol coch neu ambr i saith risg ychwanegol yn y gofrestr risg gorfforaethol, gan godi'r cyfanswm o 13 yn 2019-20 i 20 yn 2020-21. Adolygom 20% ohonynt yn ystod 2020-21 (34% dros gyfnod treigl o 36 mis).

Fe wnaethom adolygu pump allan o saith (71%) risg corfforaethol a oedd â gradd risg gweddilliol coch dros gyfnod treigl o 24 mis. Adolygom rhai risgiau fwy nag unwaith yn ystod y cyfnod o 36 mis, gan gynnal 13 archwiliad a oedd yn ymwneud yn benodol â'r gofrestr risg gorfforaethol (Manylion yn Atodiad B).

Roeddem yn gallu darparu sicrwydd **'Rhesymol'** bod y Cyngor yn rheoli'n effeithiol yr holl risgiau yn y gofrestr risg gorfforaethol a adolygwyd gennym, heblaw am ddau. Dim ond sicrwydd **'Cyfyngedig'** yr oeddem yn gallu ei roi ar gyfer yr archwiliadau Gwytnwch TG a Pharhad Gwasanaeth TG (Gwe-rwydo), ond wrth ailymweld â'r 'Materion/Risgiau' Gwytnwch TG yn ddiweddarach yn y flwyddyn, roeddem yn gallu cynyddu'r sicrwydd **i 'Rhesymol'**.

**Adolygiad o drefniadau Ymateb i'r Argyfwng Covid-19**

Yn gynnar yn yr argyfwng, comisiynodd y Dirprwy Brif Weithredwr, ar ran y Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng, Archwiliad Mewnol i ddarparu sicrwydd bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer ymateb i'r argyfwng yn ddiogel, yn gadarn, yn effeithiol ac yn addas i bwrpas.

Fe wnaethom adrodd ar ganlyniad ein gwaith mewn dau ran, gan roi sicrwydd **'Rhesymol'** i'r ddau, a chodwyd chwech o 'Faterion/Risgiau' i'r Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng roi sylw iddynt. Fis yn ddiweddarach, adolygwyd y 'Materion/Risgiau' hyn gennym ac roeddem yn gallu adrodd fod pob un wedi cael sylw.

**Gwaith archwilio arall**

Adolygwyd meysydd allweddol eraill o weithgareddau'r Cyngor hefyd, gan gynnwys meysydd yr oedd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 a'r UDA wedi codi pryderon yn eu cylch (Manylion yn Atodiad C).

O’r naw archwiliad o’r fath a gwblhawyd gennym yn ystod 2020-21, rhoesom sicrwydd **‘Rhesymol’** ar gyfer y trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol i bump ohonynt a sicrwydd **‘Cyfyngedig’** i bedwar.


**Gwaith ardystio grantiau**

Cwblhawyd gwaith ardystio grantiau gennym hefyd lle’r oedd gofyn eu harchwilio yn unol â’u telerau ac amodau (Manylion yn Atodiad D).

O’r naw archwiliad ardystio grantiau a gwblhawyd gennym yn ystod 2020-21, rhoesom sicrwydd **‘Sylweddol’** i saith ohonynt ar gyfer eu trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ac ni chanfuom unrhyw ‘Risgiau/Materion’ arwyddocaol na pherthnasol.

**Graddfeydd Sicrwydd Archwilio Mewnol a roddwyd yn ystod 2020-21**

Yn gyffredinol, roeddem yn gallu darparu sicrwydd **‘Rhesymol’** neu well ar gyfer 78% o’r archwiliadau a gynhaliwyd gennym.




Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd pum archwiliad (22%) sicrwydd **‘Cyfyngedig’**, o gymharu â dau yn 2019-20. Yn unol â’n protocol, rydym yn ailymweld yn ffurfiol â’r holl ‘Faterion/Risgiau’ a godwyd mewn adroddiadau lle rhoddwyd sicrwydd **‘Cyfyngedig’**, ar derfyn y cyfnod gweithredu, er mwyn sicrhau eu bod wedi cael sylw effeithiol. Fe wnaethom ailedrych yn ffurfiol ar bedwar adroddiad â gradd sicrwydd **‘Cyfyngedig’**. Ailedrychwyd hefyd ar ddau adroddiad oedd â gradd sicrwydd **‘Rhesymol’**; un a oedd yn cael ei gydnabod fel risg yn y gofrestr risg gorfforaethol (Ymateb i’r Argyfwng) ac un lle’r oedd nifer o ‘Faterion/Risgiau’ yn parhau i fod angen sylw (Dyledwyr Amrywiol). Yn dilyn

ein hailymweliad, roeddem yn gallu codi'r sicrwydd i **'Rhesymol'** yn yr holl adroddiad yr ailedrychwyd arnynt.

Ni dderbyniodd yr un archwiliad **'Ddim'** sicrwydd a ni chodwyd unrhyw 'faterion/risgiau' **'Critigol'** (coch) yn ystod y flwyddyn.

Ble nodwyd 'Risgiau/Materion' gennym, derbyniwyd pob un ohonynt gan reolwyr. Cafodd y 'Materion/Risgiau' oedd yn weddill eu monitro a'u cofnodi yn ein system dracio gweithredoedd, a drafodir yn fanylach yn yr adran a ganlyn.

## Sicrwydd Llinell Gyntaf

### Sicrwydd Rheoli Argyfwng

Roedd canllawiau a gyhoeddwyd gan CIPFA (gweler y Rhagair - Y Cyd-destun Presennol uchod) yn argymell bod penaethiaid archwilio yn ystyried ffynonellau sicrwydd eraill, ochr yn ochr â gwaith archwilio mewnol, er mwyn cyflawni cyfrifoldeb y pennaeth archwilio i gyhoeddi barn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor.

Felly, fe wnaethom gwblhau darn o waith lle'r oedd rhaid i reolwyr gwblhau dau holiadur, un ar lefel strategol ac un ar lefel weithredol. Datblygwyd holiaduron gennym er mwyn derbyn sicrwydd uniongyrchol, 'llinell gyntaf'[4] gan uwch reolwyr a rheolwyr canol ynglŷn â sut yr oedd y Cyngor wedi ymdopi â'r heriau a gododd yn sgil COVID-19, er mwyn nodi'r risgiau oedd yn newid a'r effeithiau ar y Cyngor ei hun ac a oedd trefniadau allweddol mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol wedi dirywio neu wedi cael eu cynnal.

Yn gyffredinol, roedd canlyniadau'r hunanasesiad yn gadarnhaol. Oherwydd maint a dyfnder yr ymatebion a dderbyniwyd gan y gwasanaethau, gall y Cyngor dderbyn sicrwydd 'llinell gyntaf' **'Rhesymol'** y cafodd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth eu cynnal yn ddigonol wrth iddo ymateb i'r pandemig COVID-19.

---

[4] O Fodel Tair Llinell Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol, ar gael yn https://www.iia.org.uk/resources/corporate-governance/application-of-the-three-lines-model/

# MATERION / RISGIAU SYDD ANGEN SYLW

Eleni yw'r flwyddyn lawn gyntaf o weithredu fersiwn newydd, wedi'i huwchraddio, o system dracio gweithredoedd 4action y Cyngor. Rydym yn falch o adrodd bod y system newydd wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran gwella ein prosesau ar gyfer dilyn i fyny a thracio gweithredodd archwilio mewnol.

Rydym wedi datblygu a mireinio ein dangosfwrdd, sy'n rhoi darlun amser real o berfformiad cyfredol wrth fynd i'r afael â'r gweithredoedd sydd angen sylw ac mae'n caniatáu i ni dracio ac adrodd ar y wybodaeth hon yn effeithiol. Rydym yn monitro gweithredoedd 'hwyr' yn barhaus ac felly rydym yn gallu cael diweddariadau ar unwaith gan reolwyr ar y cynnydd a wneir i fynd i'r afael â hwy.


Rydym hefyd wedi datblygu dangosfwrdd gwasanaeth pwrpasol i gynorthwyo penaethiaid gwasanaeth a'u timau rheoli i fonitro a darparu diweddariadau ar eu gweithredoedd. Ar hyn o bryd rydym yn treialu'r dangosfwrdd gyda'r gwasanaeth Adnoddau ac os bydd yn llwyddiannus byddwn yn bwrw ymlaen i'w gyflwyno i wasanaethau eraill ar draws y Cyngor yn ystod 2021-22. Yn anffodus, mae argyfwng COVID-19 wedi cyfyngu ar ein gallu i gyflwyno'r system 4action newydd i wasanaethau a darparu hyfforddiant ac ati fel bod rheolwyr yn gallu defnyddio ei swyddogaethau'n llawn. Wrth i'r pandemig gilio, byddwn yn ailafael yn y gwaith hwn.


## Perfformiad Cyfredol

Mae'r saith graff a ganlyn yn dangos sefyllfa gweithredoedd sydd angen sylw ar draws y Cyngor ar 31 Mawrth 2021. Yn anochel, mae argyfwng COVID-19 wedi cael effaith ar allu rhai gwasanaethau i fynd i'r afael â'r gweithredoedd sydd angen sylw ganddynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Dylid nodi na chodwyd unrhyw 'Faterion/Risgiau' 'Coch' yn ystod y flwyddyn ac nid oes unrhyw 'Faterion/Risgiau' 'Coch' angen sylw ar hyn o bryd.

### Gweithredoedd sydd angen sylw a Gweithredoedd Hwyr









Ar 31 Mawrth 2021, roeddem yn tracio 60 o weithredoedd oedd angen sylw. O'r rhain, roedd 20 ohonynt yn 'sylweddol' (ambr) a 40 yn 'gymedrol' (melyn) o ran eu blaenoriaeth risg, fel y dangosir ar y chwith uchod.

Rydym yn monitro pob gweithred ac yn cysylltu gyda rheolwyr yn eu cylch pan fyddant yn hwyr yn cael eu gweithredu er mwyn sicrhau y byddant yn cael sylw. Ar 31 Mawrth 2021, roedd dwy weithred wedi cyrraedd eu dyddiadau targed ac felly'n 'hwyr', fel y dangosir ar y dde uchod.

### Materion / Risgiau a Godwyd ac yr oedd angen eu cwblhau yn 2020-21





Codwyd 21 o 'faterion/risgiau' a oedd angen sylw gan reolwyr yn 2020-21. O'r rhain, roedd saith yn y categori 'sylweddol' ac 14 yn y categori 'cymedrol'. O'r gweithredoedd a godwyd gennym ac a oedd i fod i gael eu cwblhau yn 2020-21, roedd y rheolwyr wedi

rhoi sylw i chwech o rai blaenoriaeth risg gymedrol cyn 31 Mawrth 2021. Mae hyn yn berfformiad 100% yn y maes hwn.

**Statws y Materion / Risgiau**







Dengys y graffiau uchod statws pob gweithred h.y. a ydyn nhw ‘yn cael sylw’, ‘heb gychwyn’ neu ‘wedi cau’ os yw’r weithred wedi cael sylw. Rydym yn gwirio pob gweithred sydd ‘wedi cau’ i sicrhau ein bod yn fodlon bod y camau a gymerwyd gan reolwyr wedi mynd i’r afael â’r risg a nodwyd yn wreiddiol.

Dengys y graff ar y chwith uchod statws yr holl weithredoedd, waeth pa bryd y cytunodd y rheolwyr i fynd i’r afael â nhw. Mae’n dangos bod y rheolwyr bellach wedi rhoi sylw i 40% ohonynt erbyn hyn. Mae’r gwasanaeth archwilio mewnol wedi gwirio 38% o’r rhain. Mae’r 2% sy’n weddill yn ymwneud â gweithredoedd archwiliad y byddwn yn ei ddilyn i fyny’n ffurfiol ym mis Ebrill 2021. Byddwn yn gwirio bod y gweithredoedd hyn wedi’u cwblhau yn ystod y darn hwn o waith.


Mae tua hanner y gweithredoedd a ddangosir yma fel rhai sydd ‘heb gychwyn’, yn ymwneud â dau archwiliad a gwblhawyd tua diwedd y flwyddyn ddiwethaf. Felly, nid oes disgwyl i’r gweithredoedd a nodwyd o ganlyniad i’r archwiliadau hyn fod wedi eu cwblhau eto.

Mewn cyferbyniad, dengys y graff ar y dde statws yr holl weithredoedd sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targedu. Mae’n dangos bod rheolwyr wedi rhoi sylw i 90% o’r rhain, gyda gwaith yn cael ei wneud i roi sylw i’r gweddill. Fodd bynnag, mae’n rhaid i ni nodi y

byddwn ar adegau yn ymestyn dyddiadau targed ar gyfer rhai gweithredoedd, ond dim ond os gall y gwasanaeth ddangos rheswm dilys dros yr estyniad, e.e. os daw'n amlwg bod y dyddiad gwreiddiol yn anghyraeddadwy, gan fod angen gwneud llawer mwy o waith i fynd i'r afael â'r mater/risg.

Oherwydd argyfwng COVID-19, rydym wedi ymestyn sawl dyddiad cau targed ar gyfer gwasanaethau sydd wedi canolbwyntio ar ymateb i'r pandemig fel eu blaenoriaeth amlwg dros y 12 mis diwethaf.

**Materion / Risgiau sydd angen sylw fesul Blwyddyn**




Fel y manylir uchod, mae 60 o weithredoedd sydd eto i'w cyflawni'n llawn.

Mae'r rhain wedi'u gwasgaru rhwng 2014-15 a 2020-21. Er bod y graff yn dangos bod y mwyafrif yn ymwneud â'r ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, mae'n tynnu sylw at nifer fach o hen weithredoedd nad yw rheolwyr wedi mynd i'r afael â nhw'n llawn eto.

Dylid nodi fod y ddwy 'hen' weithred hyn yn cael eu cyfrif fel rhai 'cymedrol' o ran blaenoriaeth risg. Fodd bynnag, byddwn yn ymdrechu i ddilyn i fyny'r holl weithredoedd sydd heb eu cyflawni i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau.

# MATERION SY'N BERTHNASOL I BARATOI'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

**Nid oes unrhyw faterion sydd â risg neu effaith sylweddol uchel sy'n cyfiawnhau eu cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**

Yn ystod 2020-21, rydym wedi gweld bod uwch reolwyr yn y Cyngor yn gefnogol ac yn ymatebol i'r materion a godwyd gennym. Mae gennym berthynas dda â'r rheolwyr; maent yn agored o ran y meysydd y maent yn eu hystyried fel rhai lle gallai problemau godi ac maent yn derbyn canlyniadau ein gwaith fel cyfle i wneud gwelliannau.

Cawsom ein comisiynu i wneud gwaith ymgynghorol hefyd yn ystod y flwyddyn ar gais rheolwyr, sy'n arwydd cryf bod rheolwyr yn barod i ymgysylltu â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol i sefydlu amgylcheddau da ar gyfer rheoli risg.

# EIN PERFFORMIAD

Wrth gyflawni strategaeth archwilio seiliedig ar risg, mae’r Pennaeth Archwilio a Risg, gyda chymorth yr UDA, wedi gwneud pob ymdrech i wneud y defnydd gorau o’r adnoddau archwilio mewnol oedd ar gael yn ystod y pandemig, yn cynnwys:

- symleiddio adroddiadau i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- culhau ffocws cwmpas archwiliadau er mwyn archwilio risgiau allweddol yn unig
- llenwi swyddi archwilio gwag ar sail dros dro - gan recriwtio Uwch Archwilydd ychwanegol
- prynu arbenigedd archwilio gan ddarparwr allanol - Archwiliad TG gan Gyngor Dinas Salford
- arfarnu’r holl geisiadau am waith ymgynghorol a rhoi blaenoriaeth i waith sicrwydd a gwaith ymgynghorol sy’n cefnogi ein barn flynyddol - canllawiau a hyfforddiant ar y Gronfa Ysgol, allanolwyd gwaith archwilio yn ymwneud ag ardystio
- osgoi arallgyfeirio staff archwilio mewnol i wneud gwaith gwrth-dwyll - mae’r rhaglen gwrth-dwyll wedi cael ei gohirio tan 2021-22
- gwneud cyn lleied â phosib o waith nad yw’n ymwneud ag archwilio, megis datganiadau COVID-19 ac adleoli staff i’r timau Profi, Olrhain a Diogelu (TTP) a grantiau busnes
- cyfathrebu mwy gydag gwasanaethau er mwyn cynorthwyo i sicrhau cydweithio da ac osgoi unrhyw oedi diangen wrth gynnal archwiliadau - defnyddiwyd technoleg yn well, megis Microsoft Teams
- parhau i fabwysiadu dull ‘archwilio ystwyth’ er mwyn osgoi oedi a chael gwared â rhwystrau sy’n atal cynnydd.

## Ychwanegu Gwerth

Er i’r pandemig gyfyngu ar gyfleoedd, hyd yn oed yn y cyd-destun heriol hwn, rydym wedi ceisio ychwanegu gwerth lle bynnag y bo’n bosib drwy gydol y flwyddyn. Rydym wedi parhau i gefnogi rheolwyr ar draws y Cyngor drwy ddarparu hyfforddiant, cyngor a chaffael adnoddau allanol i ddarparu sicrwydd.

Yn ogystal, rydym wedi parhau i gefnogi cyfoedion ar draws Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr drwy rannu arfer da a rhaglenni gwaith, ynghyd â meysydd lle mae risgiau'n dod i'r amlwg.

## Mesurau Perfformiad

Mae gennym raglen sicrhau ansawdd a gwella ar waith er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn ein gwasanaeth archwilio mewnol. Ym mis Chwefror 2020, cytunodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar nifer o dargedau perfformiad yn y Strategaeth ar gyfer 2020-21, a gellir eu gweld yn Atodiad E.

Rydym wedi perfformio'n dda yn erbyn ein targedau, gyda thri allan o bum dangosydd yn cyrraedd eu targed.

Nid ydym wedi perfformio cystal o ran y ganran o risgiau gweddilliol coch ac ambr a adolygwyd ac mae hynny'n bennaf oherwydd gostyngiad yn nifer ein staff, a chollwyd staff unwaith eto eleni oherwydd dyrchafiad, secondiad, absenoldeb hirdymor, yn ogystal ag argyfwng COVID-19. Er gwaetha'r argyfwng, cafodd dau aelod newydd o staff eu recriwtio, er bod oedi cyn iddynt gychwyn gweithio gyda'r tîm oherwydd y sefyllfa.

Oherwydd yr argyfwng COVID-19, roedd oedi hefyd wrth gwblhau dau archwiliad ac o ganlyniad ni lwyddom i gyflawni ein targed o gwblhau 100% o archwiliadau o fewn chwe mis, a hynny o 7%.

## Meincnodi


Fel arfer rydym yn meincnodi ein perfformiad yn erbyn y 22 aelod Grŵp Prif Archwilwyr Cymru, er mai dim ond 19 sy'n cymryd rhan yn rheolaidd. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig, mae gwaith meincnodi wedi cael ei ganslo ar gyfer 2020-21.

Er mai ni yw'r awdurdod lleiaf yn y grŵp o ran poblogaeth ac felly nid ydym yn elwa o'r arbedion maint sydd ar gael i rai o'r aelodau eraill, yn y gorffennol mae ein perfformiad wedi cyrraedd y chwartel uchaf yn rheolaidd.

# HYFFORDDI A DATBLYGU

Mae pob aelodau presennol o'r tîm wedi cymhwyso'n broffesiynol ac mae ganddynt gymysgedd dda o gymwysterau proffesiynol. Mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi'n sylweddol i sicrhau bod staff yn parhau i ddatblygu'n broffesiynol a'u bod yn ymwybodol o'r risgiau a'r datblygiadau sy'n dod i'r amlwg yn y sector. Rydym hefyd wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant corfforaethol mandadol lle'r oedd hynny'n ofynnol.

Yn ystod 2020-21 mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi cyfanswm o 139 diwrnod mewn hyfforddi a datblygu (113 diwrnod yn 2019-20), yn cynnwys y canlynol




Anwytho dau aelod newydd o staff a ddechreuodd weithio yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn sy'n cyfrif am y cynnydd sylweddol.

# CYDYMFFURFIO Â SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR CYHOEDDUS

O dan y Safonau, mae’n ofynnol i wasanaethau archwilio mewnol gael asesiad ansawdd allanol bob pum mlynedd.

Rhoddodd asesiad allanol o Wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn, a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2017, sicrwydd bod y gwasanaeth **yn ‘Cydymffurfio’n Gyffredinol’**[5] â’r Safonau, sef yr asesiad uchaf sydd ar gael i’r asesydd.

Bydd yr asesiad nesaf yn cael ei gynnal y flwyddyn nesaf ac mae trefniadau’n cael eu gwneud gyda Grŵp Prif Archwilwyr Cymru i Gyngor Sir y Fflint gynnal adolygiad cymheiriaid ym mis Mehefin 2022.

[5] Mae 'Cydymffurfio'n Gyffredinol' yn golygu bod y gwerthuswr wedi dod i'r casgliad bod strwythurau, polisïau a gweithdrefnau perthnasol y gwasanaeth archwilio mewnol, yn ogystal â'r prosesau i'w gweithredu, yn cydymffurfio â gofynion y Safon neu'r elfen unigol o'r Cod Moeseg ym mhob ffordd berthnasol. Ar gyfer yr adrannau a'r prif gategorïau, mae hyn yn golygu bod cydymffurfiaeth gyffredinol â mwyafrif o Safonau neu elfennau unigol y Côd Moeseg, ac o leiaf gydymffurfiaeth rannol â'r lleill, yn yr adran / categori. Efallai bod cyfleoedd sylweddol i wella, ond ni chaiff y rhain fod yn sefyllfaoedd lle nad yw'r gwasanaeth wedi gweithredu'r Safonau neu'r Côd Moeseg, neu heb eu gweithredu'n effeithiol, neu heb gyflawni'r amcanion a fwriadwyd ar eu cyfer. Fel y nodir uchod, nid oes raid i gydymffurfiaeth gyffredinol fod yn gydymffurfiaeth gyflawn / perffaith, y sefyllfa ddelfrydol, arfer llwyddiannus, ac ati.

# HERIAU A CHYFLEOEDD I'R DYFODOL

Cyn y gallai 2020-21 dechrau hyd yn oed, roedd argyfwng COVID-19 wedi golygu bod Strategaeth Archwilio Mewnol 2020-21 wedi dyddio. Cafodd y rhan fwyaf o'r tîm Archwilio Mewnol a Rheoli Risg eu hadleoli i weithio ym meysydd blaenoriaeth y busnes er mwyn cynorthwyo gydag ymateb y Cyngor i'r argyfwng. Roedd y staff oedd ar ôl yn gweithio'n agos â'r Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng i ddarparu sicrwydd bod ei drefniadau ar gyfer ymateb i'r argyfwng yn addas i bwrpas. Er nad oedd hyn wedi'i gynnwys yn y Cynllun Archwilio, roedd yn waith sicrwydd holl bwysig.

Yn ogystal, fe wnaethom gynorthwyo'r Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng i ddefnyddio'r system 4action, wedi'i huwchraddio, yn ystod yr argyfwng. Profodd i fod yn offeryn hanfodol i gynorthwyo'r Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng i reoli a thracio gweithredoedd angenrheidiol wrth ymateb i'r argyfwng oedd yn mynd rhagddo.

Rydym yn hyderus y bydd yr amser a fuddsoddwyd eleni yn uwchraddio'r system 4action yn talu ar ei ganfed o ran ein gallu i fonitro ac olrhain 'materion/risgiau' sydd angen sylw. Bydd hefyd yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fedru dal y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i gyfrif mewn perthynas â pha mor effeithiol yw'r gwasanaeth wrth dracio'r 'materion / risgiau'. Oherwydd bod y system hon yn hwylus ac yn hawdd ei defnyddio mae wedi cymell rheolwyr i ymgysylltu'n well â'r broses o ddarparu diweddariadau ar 'faterion/risgiau' sydd angen sylw.

Hon fydd y bedwaredd flwyddyn o weithredu'r fethodoleg archwilio mewnol newydd. Mae'r profiad o'r llynedd wedi bod yn gyfle dysgu gwerthfawr. Bydd tîm brwdfrydig ac ymroddedig, wedi'i ategu gan aelodau staff newydd, meddalwedd rheoli risg newydd a meddalwedd tracio gweithredoedd wedi'i huwchraddio yn rhoi'r tîm archwilio mewnol mewn **sefyllfa dda i sicrhau y gall gyflawni ei gynllun** a pharhau i gefnogi'r Cyngor fel elfen allweddol o'i strwythur llywodraethu.

# ATODIAD A: DIFFINIAD O RADDAU SICRWYDD 2020-21

| Lefel Sicrwydd | Diffiniad |
|---|---|
| Sicrwydd Sylweddol (G) | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **dda**.<br><br>**Dim Risgiau/Materion sylweddol nac o bwys wedi eu canfod.** |
| Sicrwydd Rhesymol (M) | Mae trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a / neu reolaeth fewnol yn **rhesymol**.<br><br>**Mae mân wendidau o ran rheoli risgiau a / neu fesurau rheoli ond nid oes unrhyw risgiau o ran cyflawni amcanion. Gall Rheolwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth roi sylw i'r rhain.** |
| Sicrwydd Cyfyngedig (A) | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a / neu reolaeth fewnol yn **gyfyngedig**.<br><br>**Mae gwendidau sylweddol wrth reoli risgiau a / neu reolaethau sy'n peryglu cyflawni amcanion. Mae angen i Benaethiaid Gwasanaeth eu datrys ac efallai y bydd angen hysbysu'r UDA.** |
| Dim Sicrwydd (C) | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol **yn sylweddol ddiffygiol**.<br><br>**Mae gwendidau sylfaenol wrth reoli risgiau / a neu reolaethau a fydd yn arwain at fethu â chyflawni amcanion. Mae angen i'r UDA roi sylw iddynt ar unwaith ac efallai y bydd angen ymyrraeth y Pwyllgor Gwaith.** |

(G) Gwyrdd; (M) Melyn; (A) Ambr; (C) Coch

Yn ôl i'r Adran

# ATODIAD B: RISGIAU GWEDDILLIOL COCH AC AMBR YN Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL

| Cyf. | Risg | Gradd Risg Cynhenid | Gradd Risg Gweddilliol | Dyddiad Creu | Blwyddyn Archwilio 2018/19 | Blwyddyn Archwilio 2019/20 | Blwyddyn Archwilio 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM 4 | Risg y gallai digwyddiad iechyd a diogelwch achosi anaf neu salwch difrifol neu farwolaeth | E / I = 4 T / L = 4 B2 (16) (C) | E / I = 4 T / L = 3 C2 (12) (A) | 20/06/2018 | Risg Gweddilliol Melyn | Risg Gweddillol Melyn | Risg gweddilliol ambr o 27/08/20 |
| YM 5 | Risg y bydd y Cyngor yn methu recriwtio, cadw a datblygu staff addas neu nad yw'r strwythur staffio'n addas i ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. | E / I = 4 T / L = 4 B2 (16) (C) | E / I = 4 T / L = 3 C2 (12) (A) | 20/06/2018 | Recriwtio a Chadw (Mawrth 2019) (M) | | |
| YM 9 | Risg na fydd modd darparu gwasanaethau allweddol yn dilyn digwyddiad mawr (e.e. argyfwng sifil, llifogydd difrifol, Covid-19, clwy' traed a'r genau, contractwr mawr yn rhoi'r gorau i fasnachu ac ati) | E / I = 5 T / L = 5 A1 (25) (C) | E / I = 5 T / L = 3 C1 (15) (C) | 20/06/2018 | | Parhad Busnes (Chwefror 2020) (M) | Adolygiad o'r Ymateb i Argyfwng COVID-19 (Ebrill 2020) (M) |
| YM 11 | Risg bod camgymeriad diogelu difrifol yn arwain neu'n cyfrannu at niwed difrifol i'r unigolion hynny y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt | E / I = 4 T / L = a B2 (16) (C) | E / I = 3 T / L = 4 C2 (12) (A) | 20/06/2018 | Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (Mehefin 2018) (M) | Diogelu Corfforaethol (Medi 2019) (M) | Panel Rhiant Corfforaethol (Ionawr 2021) (M) |
| YM 13 | Risg nad yw gallu'r Cyngor i gynllunio am newid demograffig ar yr Ynys yn ddigon cadarn i ddelio â'r newid mewn galw am wasanaethau sy'n deillio o hynny | E / I = 4 T / L = 5 A2 (20) (C) | E / I = 3 T / L = 4 B3 (12) (A) | 20/06/2018 | | | |

| Cyf. | Risg | Gradd Risg Cynhenid | Gradd Risg Gweddilliol | Dyddiad Creu | Blwyddyn Archwilio 2018/19 | Blwyddyn Archwilio 2019/20 | Blwyddyn Archwilio 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM 15 | Risg nad yw'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn cael ei gweithredu'n llawn gan effeithio ar safonau a'r gallu i leihau lleoedd gweigion a rhoi sylw i ddiffyg lleoedd mewn ysgolion | E / I = 5 T / L = 4 B1 (20) (C) | E / I = 4 T / L = 3 C2 (12) (A) | 20/06/2018 | Gofynnodd y Cyfarwyddwr am ohirio gwaith archwilio oherwydd i'r rhaglen gael ei gohirio dros dro | | |
| YM 17 | Risg nad yw seilwaith yr Ynys yn diwallu anghenion y cyhoedd a busnesau ar draws yr ynys | E / I = 4 T / L = 4 B2 (16) (C) | E / I = 4 T / L = 2 D2 (8) (A) | 21/06/2018 | | | |
| YM 22 | Risg bod y Cyngor yn ymrwymo i gontractau sydd yn rhoi baich ariannol / adnoddau dianghenraid ar y Cyngor | E / I = 4 T / L = 3 C2 (12) (A) | E / I = 4 T / L = 2 D2 (8) (A) | 21/06/2018 | | | |
| YM 28 | Risg y bydd ymosodiad seibr yn cael effaith sylweddol ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau rheng flaen a gwasanaethau cefnogi | E / I = 5 T / L = 4 B1 (20) (C) | E / I = 5 T / L = 3 C1 (15) (C) | 21/06/2018 | Archwiliad TG - Diogelwch Seibr (Chwefror 2019) (M) | | Archwiliad TG - Gwe-rwydo (Mai 2021) (A) |
| YM 29 | Risg na fydd y Cyngor yn gallu cytuno ar safle addas, cost effeithiol sydd yn cyrraedd yr anghenion a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016 | E / I = 4 T / L = 4 B2 (16) (C) | E / I = 4 T / L = 3 C2 (12) (A) | 21/06/2018 | Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai 2014) (Ebrill 2019) (M) | | |
| YM 30 | Risg bod sipsiwn a theithwyr yn creu gwersylloedd heb eu hawdurdodi gan darfu ar fusnesau lleol a thrigolion | E / I = 3 T / L = 5 A3 (15) (A) | E / I = 3 T / L = 4 B3 (12) (A) | 21/06/2018 | Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai 2014) | | |

| Cyf. | Risg | Gradd Risg Cynhenid | Gradd Risg Gweddilliol | Dyddiad Creu | Blwyddyn Archwilio 2018/19 | Blwyddyn Archwilio 2019/20 | Blwyddyn Archwilio 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | (Ebrill 2019) (M) | | |
| YM 38 | Risg bod methiant TG yn cael effaith sylweddol ar ddarparu gwasanaeth | E / I = 5 T / L = 5 A1 (25) (C) | E / I = 5 T / L = 3 C1 (15) (C) | 10/09/2018 | | Archwiliad TG - Gwytnwch TG (Ebrill 2020) (A) | Archwiliad TG - Adolygiad Dilyn i Fyny Gwytnwch TG (Mai 2021) (M) |
| YM 40 | Risg y bydd gadel yr Undeb Ewropeaidd (Brexit) yn cael effaith negyddol ar Ynys Môn | E / I = 4 T / L = 5 A2 (20) (C) | E / I = 4 T / L =4 B2 (16) (C) | 04/01/2019 | | Rheoli Risgiau Brexit (Ionawr 2020) (M) | |
| YM 41 | Risg bod y gostyngiad termau real yng nghyllid y Cyngor yn parhau ac yn arwain at gwtogi gwasanaethau statudol, peidio â chyflawni blaenoriaethau, ~~peidio â buddsoddi~~, a chynyddu pwysau staffio | E / I = 5 T / L = 5 A1 (25) (C) | E / I = 4 T / L = 4 B2 (16) (C) | 14/05/2019 | | Gwytnwch Ariannol (Ebrill 2020) (M) | Ailddiffiniwyd y risg 25/01/2021 |
| YM 43 | Risg na fydd Ynys Môn yn adfer yn llwyr yn dilyn yr argyfwng COVID-19 | E / I = 5 T / L = 4 B1 (20) (C) | E / I = 4 T / L = 4 B2 (16) (C) | 11/05/2020 | | | Newydd yn 2020/21 |
| YM 45 | Risg y bydd mwy o dlodi yn arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau'r Cyngor | E / I = 4 T / L = 4 B2 (16) (C) | E / I = 4 T / L = 3 C2 (12) (A) | 18/08/2020 | Diwygio Lles (Ebrill 2019) (M) | | Newydd yn 2020/21 |
| YM 47 | Risg y bydd y coed y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt yn cwympo gan achosi anaf neu ddifrod sylweddol | E / I = 4 T / L = 4 B2 (16) (C) | E / I = 4 T / L = 3 C2 (12) (A) | 01/10/2020 | | | Ailddiffiniwyd y risg 25/01/2021 |

| Cyf. | Risg | Gradd Risg Cynhenid | Gradd Risg Gweddilliol | Dyddiad Creu | Blwyddyn Archwilio 2018/19 | Blwyddyn Archwilio 2019/20 | Blwyddyn Archwilio 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM 48 | Risg bod ymateb y Cyngor i newid hinsawdd yn cael ei ystyried yn annigonol i ddiogelu cymunedau lleol rhag y sgil effeithiau | E / I = 4 T / L = 4 B2 (16) (C) | E / I = 4 T / L = 3 C2 (12) (A) | 07/12/2020 | | | Newydd yn 2020/21 |
| YM 49 | Risg na fydd asedau ffisegol y Cyngor (e.e. adeiladau, ffyrdd, rhwydwaith TG) yn addas i bwrpas os na all y Cyngor fuddsoddi ynddynt yn ddigonol i'w cynnal a'u datblygu | E / I = 5 T / L = 4 B1 (20) (C) | E / I = 4 T / L = 4 B2 (16) (C) | 19/02/2021 | | | Newydd yn 2020/21 |
| YM 50 | Risg nad oes gan y Cyngor yr adnoddau arbenigol angenrheidiol i gyflawni ei ddyletswyddau fel perchennog maes awyr | E / I = 3 T / L = 5 A3 (15) (A) | E / I = 3 T / L = 4 B3 (12) (A) | 25/03/2021 | | | Newydd yn 2020/21 |

(G) Gwyrdd; (M) Melyn; (A) Ambr; (C) Coch

Yn ôl i'r Adran

# ATODIAD C: GWAITH ARCHWILIO MEWNOL ARALL YN 2020-21

| Teitl yr Archwiliad | Dyddiad yr Adroddiad Terfynol | Lefel Sicrwydd | Critigol (C) | Sylweddol (A) | Cymedrol (M) |
|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli'r Risg o Dwyll | Mai-20 | Rhesymol (M) | 0 | 0 | 6 |
| Rheoli Cronfeydd Answyddogol Ysgolion | Medi-20 | Cyfyngedig (A) | 0 | 1 | 4 |
| Proses Gadawyr | Medi-20 | Cyfyngedig (A) | 0 | 1 | 3 |
| Dyledwyr Amrywiol (Dilyn i Fyny am y trydydd tro) | Medi-20 | Rhesymol (M) | 0 | 0 | 5 |
| Rheolaethau System - Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau (Dilyn i Fyny am y pedwerydd tro) | Medi-20 | Rhesymol (M) | 0 | 0 | 1 |
| Taliadau - Cynnal Cyflenwyr | Ionawr-21 | Cyfyngedig (A) | 0 | 5 | 5 |
| Archwiliad Thematig Ysgolion Cynradd - Casglu Incwm (Dilyn i Fyny am yr ail dro) | Mawrth-21 | Rhesymol (M) | 0 | 0 | 0 |
| Sicrwydd ynghylch Rheoli Argyfwng (Sicrwydd Llinell Gyntaf) | Mai-21 | Rhesymol (M) | 0 | 0 | 0 |
| Nodi anfonebau dyblyg ac adennill taliadau dyblyg | Mai-21 | Cyfyngedig (A) | 0 | 3 | 3 |
| | | 9 | 0 | 10 | 27 |

(C) Ccch; (A) Ambr; (M) Melyn

Yn ôl i'r Adran

# ATODIAD D: GWAITH ARDYSTIO GRANTIAU YN 2020-21

| Teitl yr Archwiliad | Dyddiad yr Adroddiad Terfynol | Lefel Sicrwydd | Critigol (C) | Sylweddol (A) | Cymedrol (M) |
|---|---|---|---|---|---|
| Grant Rhentu Doeth Cymru | Medi-20 | Sylweddol (G) | 0 | 0 | 0 |
| Y Grant Datblygu Disgyblion | Medi-20 | Sylweddol (G) | 0 | 0 | 0 |
| Y Grant Datblygu Disgyblion - Dyraniad Plant sy'n Derbyn Gofal | Medi-20 | Sylweddol (G) | 0 | 0 | 0 |
| Grant Awdurdod Lleol - Dysgwyr o Gefndir Ethnig, Lleiafrifol, Sipsiwn, Roma neu Deithwyr | Tach-20 | Sylweddol (G) | 0 | 0 | 0 |
| Grant Addysg Llywodraeth Leol - Dyfarniad Cyflog Athrawon - Cost dyfarniad cyflog Athrawon (ac eithrio 6ed dosbarth) a Phwysau Ariannol yn gysylltiedig â'r Dyfarniad Cyflog Athrawon | Tach-20 | Sylweddol (G) | 0 | 0 | 0 |
| Grant Addysg Llywodraeth Leol - Y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad | Ionawr-21 | Rhesymol (M) | 0 | 0 | 0 |
| Grant Addysg Awdurdod Lleol - Dysgu proffesiynol i gefnogi a gwella ansawdd ein hathrawon | Ionawr-21 | Sylweddol (G) | 0 | 0 | 0 |
| Grant Addysg Awdurdod Lleol - Llesiant - Dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol | Ionawr-21 | Sylweddol (G) | 0 | 0 | 0 |
| Ardystio Dyraniadau Chweched Dosbarth a Dysgu Oedolion yn y Gymuned yr AALI 2019-20 | Chwefror-21 | **d/b** | d/b | d/b | d/b |
| | | **9** | **0** | **0** | **0** |

(G) Gwyrdd; (C) Coch; (A) Ambr (M) Melyn

Yn ôl i'r Adran

# ATODIAD E: MESURAU PERFFORMIAD – CYMHARU Â'R TARGED

| Dangosydd Perfformiad | Perfformiad 2018-19 | Perfformiad 2019-20 | Targed 2020-21 | Perfformiad 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| Risgiau Gweddilliol Coch ac Ambr yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol a archwiliwyd[6] | 29% | 50% | 80% | 20% (C) |
| Archwiliadau a gwblhawyd cyn pen chwe mis | Heb ei fesur | 93% | 100% | 93% (A) |
| Ymatebion cleientiaid - 'bodlon' o leiaf | 100% | 100% | 100% | 100% (G) |
| Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o fewn y targed | 87% | 86% | 100% | 100% (G) |
| Archwiliadau a gwblhawyd yn unol â'r amserlen | 100% | 100% | 100% | 100% (G) |
| Nifer y staff | 4.0 Cyfwerth ag amser llawn | 4.0 Cyfwerth ag amser llawn | 5.0 Cyfwerth ag amser llawn | 2.6 Cyfwerth ag amser llawn[7] (C) |

(G) Gwyrdd; (A) Ambr; (C) Coch

Yn ôl i'r Adran

[6] Oherwydd natur cymharol sefydlog y risgiau hyn, bydd yn cael ei fesur dros gyfnod treigl o 24 mis o 2021022
[7] 0.7 cyfwerth ag amser llawn yn cynorthwyo gyda COVID-19; Collwyd 0.4 cyfwerth ag amser llawn oherwydd salwch hirdymor; collwyd 1.7 cyfwerth ag amser llawn oherwydd swyddi gwag a gweithio'n hyblyg

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio / Cyngor Sir** |
| **Dyddiad:** | **25 Mai 2021 / 7 Medi 2021** |
| **Pwnc;** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2020-21 – Adroddiad y Cadeirydd** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151**<br>**01248 752601**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg**<br>**01248 752611**<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>Mae gofyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adrodd i'r 'rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant' (y Cyngor Sir) asesiad o'i berfformiad a'i weithgareddau yn ystod y flwyddyn er mwyn dangos sut y bu i'r Pwyllgor gyflawni ei gyfrifoldebau. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar weithgareddau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod 2020-21. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen bwysig o drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae adrodd ar ei weithgareddau yn cynorthwyo i ddangos fod y Cyngor yn awdurdod sy'n cael ei reoli'n dda ac mae hynny yn ei dro'n cyfrannu at sicrhau ei fod yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2020-21 cyn ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Sir ar 7 Medi 2021.

## Gwybodaeth Gefndir

1. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn un o bwyllgorau statudol y Cyngor. Mae'n elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor sy'n darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethiant da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gadarn.

2. Mae'r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd annibynnol i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant ynghylch digonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchedd reoli fewnol ac uniondeb adroddiadau ariannol. Drwy gynnal trosolwg o archwilio mewnol ac allanol a rheoleiddwyr eraill, mae'n gwneud cyfraniad pwysig o ran sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol ar waith.

## Llywodraethu

3. Swyddogaethau craidd pwyllgor archwilio yw bod yn sicr fod datganiadau sicrwydd yr awdurdod, yn cynnwys y datganiad llywodraethu blynyddol, yn adlewyrchiad cywir o'r amgylchedd risg ac unrhyw weithredoedd sydd eu hangen i'w wella, a dangos sut mae llywodraethiant yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion yr awdurdod.

4. Y dogfennau llywodraethu a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn oedd:

**Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019-20**

5. Derbyniodd y Pwyllgor y Datganiad Cyfrifon drafft a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2019-20, cyn iddynt gael eu hadolygu gan yr Archwilwyr Allanol, yn ei gyfarfod ar 21 Gorffennaf 2020. Manylir ar adolygiad y Pwyllgor o'r Datganiad Cyfrifon o dan y pennawd Datganiadau Ariannol isod.

6. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 adroddiad yr Archwilydd Allanol ar y Datganiadau Ariannol (Adroddiad ISA 260) i Gyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 13 Hydref 2020 a chadarnhaodd na chafodd unrhyw newidiadau sylweddol eu gwneud i'r Datganiad Cyfrifon. Penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac i gyfeirio'r ddogfen at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i'w llofnodi.

**Adroddiad Blynyddol Llywodraethu Gwybodaeth 2019-20**

7. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro (Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth Dynodedig (SIRO)) yr adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor ar 1 Medi 2020. Roedd yr adroddiad yn cynnwys datganiad y SIRO a throsolwg o gydymffurfiaeth y Cyngor â'r gofynion cyfreithiol a chodau ymarfer perthnasol wrth ymdrin â gwybodaeth gorfforaethol a gwybodaeth am gysylltiadau'r Cyngor â rheoleiddwyr allanol, digwyddiadau diogelwch ac achosion o dorri cyfrinachedd neu achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd, ynghyd â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth a chwynion yn ystod y cyfnod.

8. Roedd y datganiad yn cynnwys dadansoddiad o faterion llywodraethu gwybodaeth allweddol ar gyfer y cyfnod ac yn manylu ar gamau a gymerwyd i gryfhau ac i wella ymhellach y ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli risgiau mewn perthynas â gwybodaeth.

9. Ar ôl i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro roi eglurhad ynglŷn â materion yn ymwneud yn benodol â goblygiadau risg yr archwiliad sydd angen ei gwblhau yn y Gwasanaeth Dysgu, y pwysau gwaith a grëir gan nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth o flwyddyn i flwyddyn, a rheoli teledu cylch cyfyng (CCTV), penderfynodd y Pwyllgor dderbyn a mabwysiadu argymhellion yr adroddiad.

**Pryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban 2019-20**

10. Ar 1 Medi 2020, roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro yn darparu gwybodaeth am faterion yn codi o dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd, ond dim ond y rhai hynny lle nad oedd yr achwynydd yn ddefnyddiwr gwasanaeth.

11. Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai'n ddefnyddiol cynnwys gwybodaeth am ganmoliaeth, gwerthfawrogiad a/neu adborth cadarnhaol am agweddau o'r gwasanaeth yn yr adroddiad er mwyn cael darlun cytbwys o foddhad cwsmer mewn perthynas â darparu gwasanaethau.

12. Mewn perthynas â mater cydymffurfiaeth yn ymwneud â staff nad oes ganddynt fynediad i'r Porth Polisi, er bod y Pwyllgor yn cydnabod yr esboniad a roddwyd, gofynnodd am sicrwydd fod y mater yn cael sylw ar y lefel uchaf.

13. Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad fel un a oedd yn rhoi sicrwydd rhesymol fod y Cyngor yn cydymffurfio â'r prosesau sy'n ofynnol o dan ei Bolisi Pryderon a Chwynion a'r Polisi / Canllawiau Chwythu'r Chwiban, a chafodd y Tabl Gwersi a Ddysgwyd yn yr adroddiad ei dderbyn a'i nodi.

**Derbyn Polisïau 2019-20 – Data Cydymffurfiaeth Blwyddyn 3**

14. Ar 1 Medi 2020, cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro a oedd yn cynnwys manylion am lefel cydymffurfiaeth derbyn polisïau ar system reoli Porth Polisi'r Cyngor am y drydedd flwyddyn o fonitro.

15. Roedd yr adroddiad yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod staff unigol yn darllen, yn deall ac yn derbyn polisïau allweddol y Cyngor yn ffurfiol. Derbyniodd y Pwyllgor y sicrwydd ac ar ôl nodi gostyngiad o un flwyddyn i'r llall yn lefel y gydymffurfiaeth o ran derbyn polisïau mewn un gwasanaeth yn ystod y tair blynedd diwethaf, gofynnwyd i'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol ymateb i hynny.

**Adroddiad Blynyddol Diogelwch Seibr 2019-20**

16. Ar 1 Rhagfyr 2020, cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth TG a Rheoli Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol Diogelwch Seibr ar gyfer 2019-20 ar ran y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r bygythiadau seibr a wynebir

gan y Cyngor ac yn rhoi trosolwg o rai o'r mesurau lliniaru a oedd ar waith gan y Cyngor er mwyn gwrthsefyll y bygythiadau hyn.

17. Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r adroddiad, ac ar ôl tynnu sylw at hyfforddiant diogelwch seibr ar gyfer cynghorwyr a swyddogion ac asesiad meintiol o lwyddiant mesurau lliniaru, penderfynodd dderbyn yr adroddiad a nodi'r sicrwydd a ddarparwyd.

**Adroddiad Arfarnu Diogelu Data yn Ysgolion Ynys Môn**

18. Ar 1 Rhagfyr 2020, roedd adroddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn rhoi dadansoddiad o sefyllfa ysgolion mewn perthynas â chydymffurfio â gofynion o dan ddeddfwriaeth diogelu data, yn bennaf o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

19. Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion ar ôl ymweld ag ysgolion cynradd ac uwchradd am y tro cyntaf ac roedd y nodi'r camau nesaf i'w cymryd i sicrhau bod pob ysgol yn cydymffurfio â gofynion diogelu data cyn gynted â phosib.

20. Ar ôl derbyn eglurhad gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ynglŷn â'r cynllun i gyflawni'r newidiadau arfaethedig, darparwyr trydydd parti sy'n prosesu / storio data personol ar ran ysgolion, ac effaith argyfwng COVID-19 ar hyfforddiant GDPR a gynlluniwyd ar gyfer llywodraethwyr ysgol, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo ei argymhellion.

## Rheoli Risg

21. Mewn perthynas â rheoli risg, swyddogaethau craidd pwyllgor archwilio yw ystyried effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg yr awdurdod a'r amgylchedd rheoli, adolygu proffil risg y sefydliad a chael sicrwydd fod rheolwyr yn cymryd camau priodol ar faterion yn ymwneud â risg, yn cynnwys partneriaethau a chydweithio â sefydliadau eraill.

22. Yn ogystal, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cynnwys y gofyn i awdurdodau lleol benodi Pwyllgor sydd â chyfrifoldeb am adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd yn gosod cyfrifoldeb arno i gyflawni'r gofynion hyn.

23. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gefnogi'r fframwaith Rheoli Risg o fewn y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Rhoddodd ystyriaeth i risgiau corfforaethol y Cyngor yn ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr 2020. Cyflwynodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant adroddiad y Pennaeth Risg ac Archwilio, yn ymgorffori'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ddiwygiedig, i'r Pwyllgor ei ystyried. Derbyniodd y Pwyllgor eglurhad ynghylch y rhesymeg dros ailddiffinio risgiau ac eglurhad ynghylch risgiau eraill.

24. Penderfynodd y Pwyllgor nodi'r newidiadau yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol fel rhan o drefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei risgiau ac i dderbyn sicrwydd bod yr Uwch Dîm

Arweinyddiaeth wedi cydnabod y risgiau o ran cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor a'i fod yn eu rheoli.

## Datganiadau Ariannol

25. Mewn perthynas â datganiadau ariannol, swyddogaeth graidd y Cyngor yw adolygu'r datganiadau ariannol, barn yr archwilydd allanol ac adroddiadau i aelodau, a monitro gweithredoedd rheolwyr mewn ymateb i'r materion a godwyd gan yr archwilydd allanol.

26. Yn ei gyfarfod ar 21 Gorffennaf 2020, derbyniodd y Pwyllgor y Datganiad Cyfrifon drafft a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2019-20, cyn iddynt gan eu harchwilio gan yr Archwilwyr Allanol.

27. Yn ei gyfarfod ar 1 Medi 2020, hysbysodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 y Pwyllgor ei fod wedi cyflwyno Datganiad Cyfrifon drafft y Cyngor ar gyfer 2019-20 i'r Archwilwyr Allanol eu harchwilio ar 6 Gorffennaf 2020. Fodd bynnag, oherwydd problem adnoddau o fewn y tîm Archwilio Allanol, a gymhlethwyd gan oedi i archwiliadau'r GIG oherwydd COVID-19, nid oedd yr Archwilydd Allanol yn gallu darparu barn archwilio na chyhoeddi'r adroddiad ISA 260 ar y datganiadau ariannol oherwydd bod gwaith adolygu ac adrodd angen ei gwblhau ar y pryd.

28. Gan fod y mwyafrif o'r gwaith archwilio manwl wedi'i gwblhau, penderfynodd y Pwyllgor argymell i'r Cyngor Llawn y byddai'n cadarnhau derbyn Datganiad Cyfrifon Terfynol Interim 2019-20 yn ei gyfarfod nesaf. Nodwyd y byddai'r Datganiad o Gyfrifon 2019-20 yn dod gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor Llawn eto ac y byddai'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn ei lofnodi unwaith y byddai'r farn a'r adroddiad archwilio wedi'u cwblhau.

29. Cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod arbennig ar 13 Hydref 2020 i ystyried y Datganiad Cyfrifol Terfynol ar gyfer 2019-20 ac adroddiad yr Archwilydd Allanol ar y Datganiadau Ariannol (Adroddiad ISA 260).

30. Amlygodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 y prif faterion yn codi ers i'r Datganiad Cyfrifon drafft gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 1 Medi 2020 a chadarnhawyd na wnaed unrhyw newidiadau sylweddol i'r Datganiad o'r Cyfrifon.

31. Ar ôl derbyn eglurhad ynghylch cydnabyddiaeth ariannol i swyddogion, cynnydd mewn llog a gafwyd o gymharu â'r Datganiad Cyfrifon drafft, rhannu arian o Ymddiriedolaeth Elusennol David Hughes a rheolaethau cyflogres, penderfynodd y Pwyllgor argymell i'r Cyngor Sir ei fod cadarnhau derbyn y Datganiad o Gyfrifon 2019-20.

32. Er i'r Archwilydd Allanol nodi bod rhywfaint o waith angen ei gwblhau mewn perthynas ag adolygiad o Rwymedigaethau Pensiwn, cadarnhaodd y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau cyn i'r Cyfrifon llawn gael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn eu derbyn.

33. Llongyfarchodd yr Archwilydd Allanol y Cyngor am gyflawni'r amserlen statudol wreiddiol ar gyfer cyhoeddi'r cyfrifon drafft ac am wneud gwaith o safon uchel iawn yn ystod cyfnod anodd oherwydd y pandemig COVID-19, a nododd y byddai'r mân gamgymeriadau teipio yn cael eu cywiro cyn cyflwyno'r adroddiad i Gyngor llawn yr Awdurdod.

## Rheoli Trysorlys

34. Mae'r pwyllgor archwilio hefyd yn cefnogi'r Cyngor drwy ymgymryd â rôl ehangach o adolygu a monitro trefniadau rheoli trysorlys yn unol â Chod Ymarfer CIPFA, *Treasury Management in Public Services: Code of Practice and Cross-Sectoral Guidance Notes* (CIPFA, 2017).

35. Yn unol â'i gylch gorchwyl a Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (2011), rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad Adolygiad Blynyddol o Weithgareddau Rheoli Trysorlys ar gyfer 2019-20. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yr adroddiad i'r Pwyllgor ei ystyried a chraffu arno yn unol â'r rheoliadau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2019-20 ar 21 Gorffennaf 2020.

36. Nododd y Pwyllgor y byddai'r ffigyrau alldro yn yr adroddiad yn parhau i fod yn ffigyrau dros dro nes bod yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2019-20 wedi'i gwblhau a'i lofnodi; byddid yn adrodd fel sy'n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol sy'n deillio o'r ffigyrau a gynhwysir yn yr adroddiad. Nododd y Pwyllgor hefyd y dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro ar gyfer 2019-20 yn yr adroddiad a chytunwyd i'w argymell i'r Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylwadau.

37. Derbyniodd y Pwyllgor hefyd adroddiad Rheoli Trysorlys canol blwyddyn yn ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr 2020 er mwyn monitro datblygiadau a thueddiadau. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn benodol at effaith COVID-19 a chadarnhaodd y cydymffurfiwyd â'r dangosyddion darbodus a thrysorlys a gymeradwywyd. Yn ystod ei drafodaethau, cododd y Pwyllgor bwyntiau a derbyniodd eglurhad ynghylch materion a oedd yn cynnwys cynnydd y rhaglen gyfalaf, gwahaniaethau rhwng cyfraddau llog ar gyfer benthyca a buddsoddi a maint balansau ariannol y Cyngor, ac yn dilyn hynny penderfynodd dderbyn yr adroddiad heb unrhyw sylw pellach.

38. Craffodd y Pwyllgor ar Ddatganiad o'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2021-22 ar 9 Chwefror 2021. Nododd y Pwyllgor y cynnydd yn nherfynau trafodion yn Atodiad 8 yr adroddiad a phenderfynodd dderbyn y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2021-22 ac i anfon y strategaeth ymlaen at y Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo, yn amodol ar ddiweddaru Tabl 4 i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.

39. Wrth graffu ar yr adroddiadau uchod, adolygodd y Pwyllgor y risgiau sy'n wynebu'r Cyngor a'i allu i reoli risg mewn perthynas â'i weithgareddau Rheoli Trysorlys.

## Archwilio Mewnol

40. Mewn perthynas â swyddogaethau archwilio mewnol yr awdurdod, swyddogaeth graidd y Pwyllgor yw goruchwylio ei annibyniaeth, ei wrthrychedd, ei berfformiad a'i broffesiynoldeb, cefnogi effeithiolrwydd y broses archwilio mewnol a hyrwyddo defnydd effeithiol o archwilio mewnol o fewn y fframwaith sicrwydd.

41. Mae ganddo rôl hefyd i gefnogi cysylltiadau effeithiol rhwng archwilio allanol ac archwilio mewnol, asiantaethau arolygu a chyrff perthnasol eraill, ac annog hyrwyddo gwerth y broses archwilio.

42. Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol y Pennaeth Archwilio a Risg ar gyfer 2019-20 yn ei gyfarfod ar 21 Gorffennaf 2020. Yn dilyn trafodaeth ynghylch mesurau perfformiad, lefelau staffio ac addasu i'r amgylchedd gwaith newydd, derbyniwyd sicrwydd ynghylch gwytnwch TG a thri 'Mater/Risg' hirdymor o 2014, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn barn archwilio gyffredinol y Pennaeth Archwilio a Risg mewn perthynas â digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheoli'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020.

43. Yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror 2021, penderfynodd y Pwyllgor nodi'r adolygiad a chymeradwyo priodoldeb parhaus y Siarter Archwilio Mewnol. Yn yr un cyfarfod, adolygodd y Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg ar y Ddarpariaeth Sicrwydd Archwilio Mewnol ar gyfer 2020-21. Penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo'r trefniadau ar gyfer sicrhau y byddai gan y Pennaeth Archwilio a Risg sicrwydd digonol i gefnogi'r Farn Archwilio Mewnol Flynyddol ar gyfer 2020-21, a nododd na fyddai unrhyw gyfyngiad ar y cwmpas.

44. Cymeradwyodd y Pwyllgor y Strategaeth Archwilio Mewnol drafft ar gyfer 2021-22 yn ei gyfarfod ar 20 Ebrill 2021, gan dderbyn bod y dull a'r blaenoriaethau a nodwyd yn bodloni anghenion sicrwydd y Cyngor.

45. Oherwydd effaith yr argyfwng COVID-19 ar waith archwilio mewnol, cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg ddiweddariad ar y strategaeth archwilio mewnol a'r blaenoriaethau yn ystod pob un o gyfarfodydd rheolaidd y Pwyllgor. Fel rhan o hyn, cyflwynodd adroddiad ar ddeilliannau pob aseiniad archwilio a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod ac amlinellodd y blaenoriaethau oedd ar y gorwel i'r gwasanaeth archwilio mewnol. Roedd yr adroddiadau hefyd yn cynnwys cynnydd gwasanaethau wrth weithredu gweithredoedd gan reolwyr i fynd i'r afael â 'Materion/Risgiau' a godwyd gan Archwilio Mewnol.

## Archwilio Allanol

46. Swyddogaethau craidd pwyllgor archwilio yw ystyried adroddiadau ac argymhellion archwilwyr allanol ac asiantaethau arolygu, ynghyd â'u goblygiadau o ran llywodraethiant, rheoli risg neu reoli.

47. Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y Cyngor. Mae rôl yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio sut mae’r Cyngor yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sut mae’n sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a pha mor dda mae’r Cyngor yn cynllunio ar gyfer gwella.

48. Yn ei gyfarfod ar 21 Gorffennaf 2020, cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad y Cynllun Archwilio arfaethedig ar gyfer blwyddyn archwilio 2019-20 ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Roedd yn cynnwys gwaith arfaethedig mewn perthynas ag archwiliad ariannol, amlinelliad o’r rhaglen archwilio perfformiad ac amserlen ar gyfer cwblhau ac adrodd ar waith archwilio allanol yn yr Awdurdod. Roedd dau lythyr atodol yn amlinellu yn gyntaf, problemau posib mewn perthynas â’r cyfrifon a’r broses archwilio ariannol a’r amserlen o ganlyniad i’r argyfwng COVID-19, ac roedd yr ail lythyr, dyddiedig Mehefin 2020, yn rhoi diweddariad ar y rhaglen waith archwilio perfformiad ar gyfer 2020-21 a’r amserlen, yn sgil COVID-19.

49. Cyflwynodd Archwilio Cymru ei Grynodeb Archwilio Blynyddol 2020 i’r Pwyllgor ar 9 Chwefror 2021. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad Crynodeb Archwilio Blynyddol ar gyfer 2020 a nodi ei gynnwys.

50. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau rheolaidd gan Archwilio Cymru a rhoes ystyriaeth iddynt. Mae hon yn agwedd bwysig o waith y Pwyllgor er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr holl adroddiadau allanol, naill ai yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio neu yn un o’r Pwyllgorau Sgriwtini, a’i fod yn cymryd camau priodol.

**Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol yng Nghyngor Sir Ynys Môn**

51. Ar 1 Medi 2020, cyflwynodd Archwilio Cymru adroddiad yn dilyn ei asesiad o gynaliadwyedd sefyllfa ariannol y Cyngor yn y tymor byr a’r tymor canol fel rhan o astudiaeth eang o gynaliadwyedd ariannol pob un o’r 22 cyngor yng Nghymru. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar strategaeth ariannol pob cyngor yn ogystal ag adolygu dangosyddion ariannol sefyllfa ariannol pob cyngor mewn perthynas â pherfformiad yn erbyn y gyllideb; cyflawni cynlluniau arbedion; defnyddio cronfeydd wrth gefn; y Dreth Gyngor a benthyca. Cytunwyd ar yr adroddiad drafft ym mis Chwefror / Mawrth 2020; fodd bynnag, roedd cryn oedi o ran cyhoeddi’r adroddiad oherwydd ymyrraeth COVID-19.

52. Yn dilyn ymatebion ynghylch canfyddiadau’r adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, a’r Pennaeth Archwilio a Risg, gofynnodd y Pwyllgor oni ddylid ei adolygu a’i ddiweddaru i adlewyrchu sefyllfa wirioneddol y Cyngor, ac yn arbennig y canlyniad alldro refeniw cadarnhaol ar gyfer 2019-20 a’r gwelliant yn sefyllfa’r cronfeydd wrth gefn. Yn dilyn hynny, a thrafodaeth bellach ynghylch perfformiad wrth gyflawni arbedion a methodolegau cyllideb ar sail sero, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn Adroddiad Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol yr Archwiliwr Allanol a nodi ei gynnwys

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o'r trefniadau ymyrraeth gynnar ac atal i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael cefnogaeth yng Nghyngor Sir Ynys Môn**

53. Ar 1 Medi 2020, cyflwynodd Archwilio Cymru adroddiad yn dilyn ei archwiliad o'r graddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn perthynas ag ymyrraeth gynnar ac atal, er mwyn sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn derbyn cymorth.

54. Nododd y Pwyllgor ei gynnwys a derbyniodd yr adroddiad fel un oedd yn rhoi asesiad cyffredinol cadarnhaol o waith y Cyngor yn y maes hwn ac roedd yn nodi bod y Cyngor wedi cymryd camau breision o fewn y Gwasanaethau Plant yn gyffredinol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**Ymateb ac Adfer yn sgil Covid-19 - Adroddiad Sicrwydd Interim**

55. Ar 1 Rhagfyr 2020 cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru a oedd yn asesu ymateb y Cyngor i'r argyfwng COVID-19 a'i ymagwedd mewn perthynas ag adfer.

56. Derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd o ganfyddiadau interim Archwilio Cymru a phenderfynodd dderbyn a nodi canfyddiadau interim Archwilio Cymru fel y'i cyflwynwyd yn yr adroddiad.

**Cronfeydd Cyfun Rhanbarthol Gogledd Cymru mewn perthynas â lleoedd i bobl hŷn mewn Cartrefi Gofal**

57. Ar 1 Rhagfyr 2020, cyflwynodd Archwilio Cymru ei adroddiad ynghylch cronfeydd cyfun rhanbarthol mewn perthynas â lleoedd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad, ar ffurf dau lythyr; un i Brif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn a'r llall at y Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn codi materion yn ymwneud â gwerth am arian mewn perthynas â threfniadau presennol cronfeydd cyfun yng Ngogledd Cymru yn y maes hwn.

58. Yn dilyn sylwadau ac amheuon a fynegwyd gan Swyddogion a'r Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn ag agweddau ymarferol a llywodraethiant Cronfa Gyfun Gogledd Cymru, penderfynodd y Pwyllgor nodi'r sefyllfa a nodwyd yn y Llythyrau Archwilio a chadarnhaodd ei fod yn fodlon â safbwynt yr Awdurdod a'i fod yn fodlon ei gefnogi.

**Cyflawni â Llai: Gwasanaethau Hamdden**

59. Ar 9 Chwefror 2021, cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru i'r Pwyllgor, a oedd yn nodi canfyddiadau adolygiad dilynol i adroddiad cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol yn 2015, Cyflawni â Llai – Gwasanaethau Hamdden. Roedd yr adroddiad yn ystyried effaith gostyngiad yng nghyllid llywodraeth leol ar wasanaethau hamdden y Cyngor ac effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer darparu'r gwasanaethau hynny.

60. Ar ôl codi a thrafod materion penodol yn ymwneud â modelau darparu gwasanaeth hamdden, effaith COVID-19 ar gyfleusterau hamdden y Cyngor, a chyflwr adeiladau hamdden y Cyngor, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.

## Gwrthsefyll Twyll a Llygredd

61. Mae'n ofynnol i'r pwyllgor adolygu effeithiolrwydd trefniadau chwythu'r chwiban y Cyngor, gan gynnwys y polisi, ei strategaeth atal twyll a llygredd, gweithredoedd ac adnoddau, risgiau o ran twyll a llygredd, ac am oruchwylio unrhyw feysydd twyll sylweddol, a monitro cynlluniau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â gwendidau mewn mesurau rheoli.

62. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro ar faterion yn codi o dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor yn ei gyfarfod ar 1 Medi 2020, a derbyniodd sicrwydd bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r prosesau sy'n ofynnol yn unol â'r Polisi Pryderon a Chwynion a'r Polisi/Canllawiau Chwythu'r Chwiban.

63. Ar 1 Medi, adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod dau ymgais wedi'u gwneud i dwyllo'r Cyngor yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Roedd y ddau yn achosion o 'dwyll ailgyfeirio maleisus'. Roedd y cyntaf yn ymwneud â system e-bost cyflenwr oedd wedi cael ei hacio gan olygu bod y Cyngor wedi talu dwy anfoneb oedd yn defnyddio manylion banc twyllodrus. Roedd yr ail yn ymwneud ag e-bost twyllodrus a oedd yn gofyn am newid manylion cyfrif banc aelod o staff. Cafodd y rhan fwyaf o'r arian ei adennill yn yr achos cyntaf o dwyll, a chafodd yr ail ei atal yn gyfan gwbl o ganlyniad i hyfforddiant staff llwyddiannus.

64. O ganlyniad i'r ddau ymgais hyn i dwyllo'r Cyngor, dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod nifer o archwiliadau o'r systemau Credydwyr a Chyflogres yn cael eu cynllunio.

65. Hysbyswyd y Pwyllgor bod Archwilio Mewnol yn cynnwys asesiad o risgiau twyll ym mhob archwiliad, a derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau rheolaidd yn eu cylch drwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal, cynhaliodd y swyddogaeth Archwilio Mewnol archwiliad benodol ar reoli'r risg o dwyll yn ystod 2019-20 a rhoddwyd sicrwydd rhesymol o'r agwedd honno; fodd bynnag, ni chafodd hyn ei adrodd i'r Pwyllgor tan 2020-21.

## Amlder Cyfarfodydd

66. Er mwyn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol, dylai'r Pwyllgor gyfarfod yn rheolaidd – o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, a chael polisi clir ynghylch yr eitemau hynny y bydd yn eu hystyried yn breifat a'r rhai y bydd yn eu hystyried yn gyhoeddus.

67. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, cafodd tri chyfarfod (Ebrill, Mai a Mehefin 2020) eu canslo oherwydd yr argyfwng COVID0-19. Fodd bynnag, cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol (cyfarfodydd rhithwir) ar bedwar achlysur, a chynhaliwyd pumed cyfarfod i gyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon 2019-20 ac adroddiad yr Archwilydd Allanol ar y Datganiadau Ariannol (Adroddiad ISA 260). Ceir gwybodaeth am aelodaeth y Pwyllgor a phresenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod 2020-21 yn Atodiad A.

68. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ei alluogi i gyfarfod yn breifat ac ar wahân gyda'r archwilydd allanol a'r Pennaeth Archwilio a Risg os oes angen, er nad oedd angen am hynny yn ystod 2020-21.

## Strwythur ac Aelodaeth

69. Mae'r Pwyllgor yn annibynnol i swyddogaethau'r pwyllgor gwaith a sgriwtini ac mae'n cynnwys aelod annibynnol yn unol â gofynion deddfwriaeth. Mae ganddo hawliau mynediad clir i bwyllgorau / swyddogaethau eraill ac mae'n atebol yn uniongyrchol i'r Cyngor.

70. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys wyth o aelodau'r Cyngor, gyda chydbwysedd gwleidyddol, a hyd at ddau Aelod Lleyg cyfetholedig a benodir gan y Pwyllgor. Yn ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn, roedd gan y Pwyllgor ddau Aelod Lleyg cyfetholedig a ddaeth yn aelodau ym mis Mehefin 2017.

71. Mae'r aelodau yn wrthrychol, yn annibynnol eu barn, yn wybodus ac yn meddu ar gymysgedd o arbenigeddau. Mae aelodau yn gefnogol o egwyddorion llywodraethu da a'u gweithrediad ymarferol er mwyn cyflawni amcanion sefydliadol. Mae gan aelodau agwedd diduedd ac maent yn trin archwilwyr, y pwyllgor gwaith a rheolwyr yn deg ac mae ganddynt y gallu i herio'r pwyllgor gwaith ac uwch reolwyr yn ôl yr angen.

72. Yn ystod 2020-21, oherwydd argyfwng COVID-19, parhaodd y Cynghorydd Peter S Rogers a Mr Jonathan Mendoza (Aelod Lleyg) yn eu rolau fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd am flwyddyn ychwanegol, yn dilyn eu hethol ar 14 Mai 2019.

73. Ymddiswyddodd Mr Jonathan Mendoza fel aelod lleyg ac Is-gadeirydd yn ystod y flwyddyn, a'r cyfarfod ar 1 Rhagfyr 2020 oedd ei gyfarfod olaf. Ar 9 Chwefror 2021, etholwyd Mr Dilwyn Evans gan y Pwyllgor yn Is-gadeirydd newydd ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

74. Ar 9 Chwefror 2021 hefyd, o ganlyniad i ymddiswyddiad Mr Mendoza, cyflwynodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yr ystyriaethau mewn perthynas a chael aelod lleyg newydd ar gyfer gweddill y tymor, h.y. hyd at fis Mai 2022. Penderfynodd y Pwyllgor ofyn i'r Cyngor ddiwygio ei Gyfansoddiad i ostwng nifer yr aelodau lleyg sy'n ofynnol ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o ddau i un. Roedd hyn er mwyn caniatáu i ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a basiwyd ar 20 Ionawr 2021, sy'n cynnwys newid i aelodaeth lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ddod i rym.

75. Yn ystod y flwyddyn, mae aelodau wedi mynychu hyfforddiant mewnol ac allanol, a restrir yn Atodiad B, ynghyd â sesiynau briffio mewnol rheolaidd.

76. Mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Archwilio a Risg yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor. Mae'r Prif Weithredwr, y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a'r archwilydd allanol penodedig hefyd yn mynychu'n rheolaidd. Mae'r swyddogion hyn yn gallu cael mynediad i'r Pwyllgor, neu'r Cadeirydd, yn ôl yr angen.

77. Gellir gweld Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021-22 yn Atodiad C. Gallai'r rhaglen newid oherwydd y sefyllfa argyfwng bresennol.

## Cylch Gorchwyl

78. Mae arfer dda yn awgrymu y dylai pwyllgorau adolygu eu cylch gorchwyl o dro i dro er mwyn sicrhau ei fod yn briodol. Yn ystod 2018-19, yn dilyn adolygiad llawn o ganllawiau CIPFA er mwyn rhoi ystyriaeth i newidiadau deddfwriaethol a datblygiadau proffesiynol, cynhaliwyd adolygiad sylweddol o gylch gorchwyl y Pwyllgor er mwyn diweddaru swyddogaethau craidd y pwyllgor mewn perthynas â llywodraethiant, rheoli risg, rheolaeth fewnol ac archwilio.

79. Ar 20 Ebrill 2021, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Risg ac Archwilio a oedd yn amlinellu'r newidiadau deddfwriaethol oedd yn effeithio ar y Pwyllgor o ganlyniad i weithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Penderfynodd y Pwyllgor, a ailenwyd yn Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, nodi'r newidiadau yng Nghyfansoddiad y Cyngor a'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## Effeithiolrwydd

80. Ar y cyfan, mae'r Pwyllgor wedi gweithio yn unol â'i gylch gorchwyl presennol, sy'n cynnwys gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o ran monitro trefniadau rheoli risg, llywodraethiant a rheolaeth fewnol yn y Cyngor.

81. Oherwydd yr argyfwng presennol, ni chwblhawyd yr hunan asesiad yn erbyn Canllawiau Ymarferol Pwyllgorau Archwilio newydd CIPFA ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (2018), a gychwynnodd ym mis Mawrth 2020. Gan ddibynnu ar sefyllfa'r argyfwng, y gobaith yw y bydd yn cael ei gwblhau yn ystod 2021-22.

## Sylwadau'r Cadeirydd

82. Hoffai'r Cadeirydd gyfleu ei ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor am eu presenoldeb a'u cyfraniad i waith y Pwyllgor yn ystod blwyddyn hynod o heriol.

83. Hoffai'r Cadeirydd gyfleu ei ddiolch hefyd i'r gweithwyr hynny o fewn y Cyngor sydd wedi mynychu cyfarfodydd a chyfrannu iddynt ac mae'r Cadeirydd yn manteisio ar y cyfle hwn yn arbennig i ddiolch i staff y gwasanaethau Cyllid ac Archwilio Mewnol am eu cymorth parod.

84. Mae'r Cadeirydd yn cymryd y cyfle hwn i atgoffa'r Cyngor am bwysigrwydd gwaith y Pwyllgor, sydd hyd yn oed yn fwy perthnasol yn yr hinsawdd economaidd bresennol a'r sefyllfa argyfwng o ran sicrhau bod y Cyngor yn cael ei redeg mewn modd effeithiol a'i fod yn sicrhau gwerth am arian.

85. Mae’r Pwyllgor wedi ymrwymo i barhau i weithio gyda staff y Cyngor er mwyn cefnogi gwelliannau parhaus yng ngweithrediadau’r Cyngor yn 2021-22.

**Y CYNGHORYDD PETER S ROGERS**
**CADEIRYDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
**MAI 2021**

## Atodiad A – Amlder Cyfarfodydd a Phresenoldeb

| Aelodau | Cyfarfodydd | | | | | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **21/07/2020** | **01/09/2020** | **13/10/2020** | **01/12/2020** | **09/02/2021** | |
| Cyng. Peter S Rogers (Cadeirydd) | Presennol | Presennol | Presennol | Ymddiheuriadau | Presennol | **4/5** |
| Mr Jonathan Mendoza (Aelod Lleyg) (Is-gadeirydd) | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Ymddiswyddo | **4/4** |
| Cyng. Robert Ll. Jones | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **5/5** |
| Cyng. John Griffith | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **5/5** |
| Cyng. Richard Griffiths | Ymddiheuriadau | Presennol | Presennol | Ymddiheuriadau | Ymddiheuriadau | **2/5** |
| Cyng. Gwilym O. Jones | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **5/5** |
| Cyng. Dylan Rees | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **5/5** |
| Cyng. Alun Roberts | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **5/5** |
| Cyng. Margaret M. Roberts | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **5/5** |
| Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **5/5** |
| Cyng. Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid) | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **5/5** |
| **Cyfanswm ar gyfer y Pwyllgor[1]** | **9** | **10** | **10** | **9** | **9** | |

Nôl i Adran

[1] Yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor, bydd y pwyllgor yn cynnwys wyth aelod etholedig a dau (un o fis Chwefror 2021) aelod lleyg. Bydd cydbwysedd gwleidyddol o aelodau etholedig ac ni fyddant yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, ond mae angen i'r Aelod Portffolio Cyllid, cyn belled â bo hynny'n bosib, fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor.

## Atodiad B – Hyfforddiant a fynychwyd gan yr Aelodau 2020-21

| Hyfforddiant | Cyng. Peter S Rogers (Cadeirydd) | Mr Jonathan Mendoza (Is-gadeirydd) (Aelod Lleyg) | Cyng. Robert Ll. Jones | Cyng. John Griffith | Cyng. Richard Griffiths | Cyng. Gwilym O. Jones | Cyng. Dylan Rees | Cyng. Alun Roberts | Cyng. Margaret M. Roberts | Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Microsoft Teams | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| CIPFA – Deall Effaith COVID-19 | | | | | | | | | | ✓ |
| Hyfforddiant Zoom anffurfiol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Nôl i Adran

**Atodiad C – Blaen Raglen Waith Arfaethedig 2021-22**

| Swyddogaeth Graidd | Dydd Mawrth 25/05/21 | Dydd Mercher 23/06/21 | Dydd Mawrth 20/07/21 | Dydd Mawrth 21/09/21 | Dydd Iau 09/12/21 | Dydd Mawrth 08/02/22 | Dydd Mawrth 19/04/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3) | Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2020-21 (3.4.8.3.1)<br><br>Adolygiad o’r Blaen Raglen Waith 2021-22 (3.4.8.3.2) | | | | Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor | | Hunan Asesiad y Pwyllgor (3.4.8.3.2) |
| Llywodraethiant (3.4.8.4) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft (3.4.8.4.1/2/3) | Cod Llywodraethiant Lleol (3.4.8.4.1/3) | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol (3.4.8.4.1/2/3) | | | |
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5) | | | Adroddiad Blynyddol 2020-21 (3.4.8.5.1/2/3/4) | | Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3) | Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2022-23) (3.4.8.5.3/4) | |
| Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7) Rheoli Risg (3.4.8.8) | | | | Cofrestr Risg Corfforaethol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | Cofrestr Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | |

## Atodiad C – Blaen Raglen Waith Arfaethedig 2021-22

| **Swyddogaeth Graidd** | **Dydd Mawrth 25/05/21** | **Dydd Mercher 23/06/21** | **Dydd Mawrth 20/07/21** | **Dydd Mawrth 21/09/21** | **Dydd Iau 09/12/21** | **Dydd Mawrth 08/02/22** | **Dydd Mawrth 19/04/22** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9) | | | Strategaeth Twyll (3.4.8.9.2/3)<br><br>Adroddiad Twyll Blynyddol 2020-21 (3.4.8.9.4) | Adroddiad Sylwadau, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynyddol (3.4.8.9.1) | | | |
| Archwilio Mewnol (3.4.8.10) | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2020-21 (3.4.8.10.6/7/8/9/ 12/14/15) (3.4.8.6) | | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6)<br><br>Materion/Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11) | Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.3/13)<br><br>Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6) | Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol 2022-23 (3.4.8.10.1/2/5/6)<br><br>Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6)<br><br>Materion/Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11) |
| Archwilio Allanol (3.4.8.11) | | | | Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2) (3.4.8.12.3) | Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021 (3.4.8.11.3) | | Cynllun Archwilio Blynyddol 2021-22 (3.4.8.11.1/3) |
| Adrodd Ariannol (3.4.8.12) | | Datganiad Cyfrifon Drafft 2020-21 (3.4.8.12.1/2) | | Datganiad Cyfrifon Terfynol 2020-21 (3.4.8.12.1/2) | | | |

**Atodiad C – Blaen Raglen Waith Arfaethedig 2021-22**

| Swyddogaeth Graidd | Dydd Mawrth<br>25/05/21 | Dydd Mercher<br>23/06/21 | Dydd Mawrth<br>20/07/21 | Dydd Mawrth<br>21/09/21 | Dydd Iau<br>09/12/21 | Dydd Mawrth<br>08/02/22 | Dydd Mawrth<br>19/04/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13) | | | Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol (3.4.8.13.1) | Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2021-22 (3.4.8.13.1)<br><br>Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth 2021-22 (3.4.8.13.1)<br><br>Adroddiad Blynyddol Derbyn Polisi 2021-22 (3.4.8.13.1)<br><br>Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2021-22 (3.4.8.13.1) | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn ysgolion (3.4.8.13.1) | | |
| Delio â Chwynion (3.4.8.14) | | | | Adroddiad Blynyddol Sylwadau, Cwynion a Chywthu Chwiban (3.4.8.14.1/2) | | | |

**Atodiad C – Blaen Raglen Waith Arfaethedig 2021-22**

| Swyddogaeth Graidd | Dydd Mawrth 25/05/21 | Dydd Mercher 23/06/21 | Dydd Mawrth 20/07/21 | Dydd Mawrth 21/09/21 | Dydd Iau 09/12/21 | Dydd Mawrth 08/02/22 | Dydd Mawrth 19/04/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Perfformiad y Panel (3.4.8.15) | | | Hunan Asesiad Drafft 2020-21 (3.4.8.15.1/2) | | | | |

Nôl i Adran

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **Dyddiad:** | 25 Mai 2021 |
| **Pwnc:** | Blaen Raglen Waith Arfaethedig 2021-22 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Er mwyn ceisio cymeradwyaeth Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu I Flaen Raglen Waith y Pwyllgor. | |

## Cyflwyniad

1. Mae arfer da yn awgrymu y dylai pwyllgorau adolygu eu blaen raglenni gwaith o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn briodol. Ym mis Rhagfyr 2019, yn dilyn adolygiad llawn o'r canllawiau CIPFA er mwyn cymryd i ystyriaeth newidiadau deddfwriaethol a datblygiadau proffesiynol, cafodd cylch gorchwyl y Pwyllgor ei ddiweddaru'n sylweddol er mwyn diweddaru swyddogaethau craidd y pwyllgor archwilio mewn perthynas â llywodraethiant, rheoli risg, rheolaeth fewnol ac archwilio. Yn fwy diweddar, diweddarwyd cylch gorchwyl y Pwyllgor er mwyn cymryd y ddeddfwriaeth newydd i ystyriaeth - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

2. Mae'r Blaen Raglen Waith arfaethedig yn Atodiad A yn cymryd i ystyriaeth y swyddogaethau craidd hyn a'r ddeddfwriaeth newydd. Ymgynghorwyd â gwasanaethau sy'n cyfrannu at adroddiadau i'r Pwyllgor.

## Argymhelliad

3. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu:

- yn ystyried a yw'r Blaen Raglen Waith arfaethedig ar gyfer 2021-22 yn bodloni ei anghenion sicrwydd
- yn adnabod eitemau pellach i'w cynnwys, os oes angen
- yn cymeradwyo'r Blaen Raglen Waith ar gyfer 2021-22.

# Atodiad A – Blaen Raglen Waith Arfaethedig 2021-22

| Swyddogaeth Graidd | Dydd Mawrth 25/05/21 | Dydd Mercher 23/06/21 | Dydd Mawrth 20/07/21 | Dydd Mawrth 21/09/21 | Dydd Iau 09/12/21 | Dydd Mawrth 08/02/22 | Dydd Mawrth 19/04/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3) | Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2020-21 (3.4.8.3.1)<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2021-22 (3.4.8.3.2) | | | | Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor | | Hunan Asesiad y Pwyllgor (3.4.8.3.2) |
| Llywodraethiant (3.4.8.4) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft (3.4.8.4.1/2/3) | Cod Llywodraethiant Lleol (3.4.8.4.1/3) | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol (3.4.8.4.1/2/3) | | | |
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5) | | | Adroddiad Blynyddol 2020-21 (3.4.8.5.1/2/3/4) | | Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3) | Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2022-23) (3.4.8.5.3/4) | |
| Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7)<br>Rheoli Risg (3.4.8.8) | | | | Cofrestr Risg Corfforaethol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | Cofrestr Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | |

Tudalen 64

## Atodiad A – Blaen Raglen Waith Arfaethedig 2021-22

| Swyddogaeth Graidd | Dydd Mawrth 25/05/21 | Dydd Mercher 23/06/21 | Dydd Mawrth 20/07/21 | Dydd Mawrth 21/09/21 | Dydd Iau 09/12/21 | Dydd Mawrth 08/02/22 | Dydd Mawrth 19/04/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9) | | | Strategaeth Twyll (3.4.8.9.2/3)<br><br>Adroddiad Twyll Blynyddol 2020-21 (3.4.8.9.4) | Adroddiad Sylwadau, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynyddol (3.4.8.9.1) | | | |
| Archwilio Mewnol (3.4.8.10) | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2020-21 (3.4.8.10.6/7/8/9/ 12/14/15) (3.4.8.6) | | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6)<br><br>Materion/Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11) | Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.3/13)<br><br>Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6) | Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol 2022-23 (3.4.8.10.1/2/5/6)<br><br>Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6)<br><br>Materion/Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11) |
| Archwilio Allanol (3.4.8.11) | | | | Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2) (3.4.8.12.3) | Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021 (3.4.8.11.3) | | Cynllun Archwilio Blynyddol 2021-22 (3.4.8.11.1/3) |

Tudalen 65

## Atodiad A – Blaen Raglen Waith Arfaethedig 2021-22

| Swyddogaeth Graidd | Dydd Mawrth 25/05/21 | Dydd Mercher 23/06/21 | Dydd Mawrth 20/07/21 | Dydd Mawrth 21/09/21 | Dydd Iau 09/12/21 | Dydd Mawrth 08/02/22 | Dydd Mawrth 19/04/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adrodd Ariannol (3.4.8.12) | | Datganiad Cyfrifon Drafft 2020-21 (3.4.8.12.1/2) | | Datganiad Cyfrifon Terfynol 2020-21 (3.4.8.12.1/2) | | | |
| Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13) | | | Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol (3.4.8.13.1) | Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2021-22 (3.4.8.13.1)<br><br>Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth 2021-22 (3.4.8.13.1)<br><br>Adroddiad Blynyddol Derbyn Polisi 2021-22 (3.4.8.13.1)<br><br>Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2021-22 (3.4.8.13.1) | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn ysgolion (3.4.8.13.1) | | |

Tudalen 66

# Atodiad A – Blaen Raglen Waith Arfaethedig 2021-22

| Swyddogaeth Graidd | Dydd Mawrth 25/05/21 | Dydd Mercher 23/06/21 | Dydd Mawrth 20/07/21 | Dydd Mawrth 21/09/21 | Dydd Iau 09/12/21 | Dydd Mawrth 08/02/22 | Dydd Mawrth 19/04/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Delio â Chwynion (3.4.8.14) | | | | Adroddiad Blynyddol Sylwadau, Cwynion a Chywthu Chwiban (3.4.8.14.1/2) | | | |
| Perfformiad y Panel (3.4.8.15) | | | Hunan Asesiad Drafft 2020-21 (3.4.8.15.1/2) | | | | |

This page is intentionally left blank